# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 512 · Medi 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim**

## Stormydd Awst

Dydd Mawrth, 25ain Awst, cafodd Dyffryn Ogwen ei daro gan dywydd oedd yn debycach i fis Tachwedd nag wythnos olaf gwyliau'r haf.

Gwelwyd gwyntoedd o hyd at 75mya a llifogydd difrifol wedi gadael cannoedd o dai heb drydan wrth i Storm Francis achosi trafferthion ledled y wlad. Yn ôl y sôn, cafodd Bethesda fwy o law nag unrhyw le arall yn Ynysoedd Prydain am gyfnod o'r dydd, a gadawodd Storm Francis ddinistr sylweddol ar ei ôl.

Caewyd yr A5 yn Nant Ffrancon am rai dyddiau yn dilyn tirlithriad sylweddol uwch Fferm Tŷ Gwyn, ond erbyn y penwythnos roedd y ffordd wedi ei chlirio a nid oedd sôn am yr hyn oedd wedi digwydd rai dyddiau ynghynt. Nid oedd pethau fawr gwell rhwng Bethesda a Phont y Pandy chwaith.

Bu Pont Tŵr ar gau ddiwrnod wedi'r storm hefyd, er mwyn arolygu rhag ofn fod difrod, ond cafodd ei hailagor i draffig erbyn diwedd y dydd.

Yn anffodus, bydd effeithiau mwy hirdymor ar rai o drigolion y dyffryn. Gwelwyd yr Afon Ogwen yn gorlifo a bu'n rhaid i ddwsinau adael eu cartrefi a symud dros dro i ganolfan hamdden Plas Ffrancon, oedd wedi ei dynodi fel y ganolfan orffwys lleol.

Mae Llais Ogwen yn dymuno'r gorau i'n darllenwyr sydd wedi dioddef o ganlyniad i effaith Francis.




Pont Tŵr ar gau er mwyn ei harchwilio

## Ail-agor yn Raddol

Mae disgwyl i Ganolfan Byw'n Iach Plas Ffrancon ail-agor erbyn 21 Medi 2020.

Diogelwch cwsmeriaid a staff yw'r flaenoriaeth uchaf ac mae gwaith caled wedi ei gynnal i gyflwyno newidiadau i'r adeilad a trefniadau a hyfforddi gweithwyr er mwyn i bobl gael cyfle i ymarfer a chymryd rhan mewn amgylchedd diogel. Mwy o fanylion ar dudalen 20.

Cofiwch fod Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, Bethesda wedi ail-agor hefyd, ond mae mynediad i'r Llyfrgell trwy apwyntiad yn unig yn hyn o bryd. Cysylltwch gyda'r Llyfrgell os am gael mynediad i ddefnyddio'r Cyfrifiaduron neu i Ddewis Llyfr.

Mae biniau y tu allan i'r adeilad yn ystod yr oriau yma ar gyfer dychwelyd llyfrau. Bydd angen defnyddio diheintydd dwylo a chydsynio i'ch manylion cyswllt gael ei rannu gyda Olrhain Cysylltiadau fel amod i gael dod i mewn i'r adeilad a defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell.




Roedd yr A5 ar gau o Bethesda i Gapel Curig oherwydd tirlithriad

## Panel Golygyddol


**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 07815 093955
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
☎ 01248 601606
Rmll42@live.co.uk


## Swyddogion


**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Dewi A. Morgan.

Y golygydd ym mis Hydref fydd
Carwyn Meredydd
4 Rhes Gordon, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3NR.
07867 536102
carwynian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Medi** os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

£20,00 Paul Bernet (Marlow), "Er cof am fy nghymar annwyl, Eira (Tai Teilwriaid.)"

**Diolch yn fawr**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Yn anffodus, nid yw'n bosib i ni ddod at ein gilydd i dynnu'r gwobrau yn ôl ein harfer hyd nes y codir y gwaharddiadau coronafeirws presennol.

Bryd hynny byddwn yn ôl-ddyddio'r gwobrau o fis Ebrill ymlaen.

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG


BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195





Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr





Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

# Ennill cystadleuaeth i ddangos gwerthfawrogiad tuag at Heddlu Gogledd Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Elain Owen o Llanllechid oedd yn un o enillwyr cystadleuaeth creu poster i ddweud "Diolch i Heddlu Gogledd Cymru", am ein cadw'n ddiogel yn ystod y misoedd diwethaf. Gosododd Menter Iaith Bangor her i deuluoedd ardal Bangor a Bethesda i lunio poster gwreiddiol eu hunain a'i roi i fyny mewn ffenestr amlwg yn eu cartref a thynnu llun ohono a'i anfon at dudalen Facebook y fenter iaith.

Eglura Cadeirydd Menter Iaith Bangor John Wynn Jones: "Cafodd nifer o blant ardal Bangor a Bethesda hwyl dda iawn arni yn llunio posteri creadigol a lliwgar.

Dyfarnwyd Elain, a Honey Jones o Maesgeirchen, fel yr enillwyr gan y Cynghorydd Rheinallt Puw a Maer Bangor, John Wyn Williams. Da iawn chi.

"Diolch yn fawr i bob un plentyn a rhiant am fynd i'r drafferth i lunio poster ac am gystadlu. Mae'r posteri i gyd yn werth chweil ac mae darpar artist ymhlith sawl un, heb os."

Meddai Simon Williams, Prif Uwch Arolygydd Dros Dro Heddlu Gogledd Cymru: "Ar ran Heddlu Gogledd Cymru hoffwn ddiolch i bob un o'r ymgeiswyr am ddylunio posteri meddylgar a gwych.

"Rydym wrth ein boddau derbyn a gweld negeseuon o gefnogaeth gan y cyhoedd ac rydym yn mawr obeithio y bydd Honey ac Elain yn mwynhau eu gwobrwyon."

Bydd y ddwy eneth yn derbyn taleb i'w ddefnyddio yn siop Partneriaeth Ogwen a playmobil car heddlu gan Heddlu Gogledd Cymru.

Dywedodd Derfel Owen, tad Elain, ar ôl clywed iddi fod yn fuddugol: "Mae hi wedi gwirioni yn llwyr. Newyddion da oherwydd mae fy chwaer yn swyddog gyda Heddlu Gogledd Cymru ac felly yn golygu lot i Elain."

Mae modd gweld yr holl bosteri ar dudalen Facebook Menter Iaith Bangor: https://www.facebook.com/menteriaithbangor/ - dilynwch y cyfrif am amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i blant.




**Elain 6 oed gyda Begw ei chwaer fach flwydd oed a'r poster enfys.**

# Newyddion o Bartneriaeth Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn falch o gael y cyfle i gefnogi 6 person ifanc lleol sydd yn gweithio ar ddatblygu prosiectau cymunedol. Dros 8 wythnos, byddwn yn cyflogi 4 swyddog Byw a Bod o dan gynllun Arloesi Gwynedd Wledig. Ein pedwar datblygwr cymunedol yw Cadi Elen, Caleb Rhys, Elin Cain a Lisa Megan. Meddai Elin Cain, "Mae'n fraint cael y cyfle i weithio efo Partneriaeth Ogwen. Dwi wastad edmygu y gwaith anhygoel maen nhw'n ei wneud yn ein cymuned, ac rwy'n ddiolchgar iddynt am sicrhau fod fy llais yn cael ei glywed fel person ifanc o Fethesda."



Yn ogystal, rydym wedi cael grant i gyflogi Patrick Rimes ar gyfer datblygu prosiect Cadwyn Ogwen. Yn gynharach yn y flwyddyn, fe groesawon ni Fflur Puw i'r tîm fel prentis datblygu cymunedol sydd yn gweithio o Siop Ogwen ar y Stryd Fawr. Mae'r criw yn gweithio ar nifer o brosiectau cyffrous unigol, ond yn ddiweddar fe ddaethon nhw at ei gilydd am y tro cyntaf i gyd-drefnu Ffair Haf Cadwyn Ogwen, a ddigwyddodd ar y 29ain o Awst yn Llys Dafydd ac yng Ngerddi Capel Jeriwsalem. Yno, croesawyd nifer o grefftwyr lleol yn ogystal a darparwyr bwyd Cadwyn Ogwen. Meddai Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen, 'Mae'n bwysig fod menter gymdeithasol fel Partneriaeth Ogwen yn rhoi cyfleoedd gwaith a gwirfoddoli da i'n pobol ifanc. Dyma entrepreneuriaid cymunedol y dyfodol, a dwi'n andros o falch bod 6 person ifanc lleol wedi ymuno efo'n tîm.' Mae'r criw yn diolch o galon i'w cymuned am fynychu'r ffair a sicrhau ei lwyddiant. Roedd yn gyfle gwych hefyd i ddathlu llwyddiant Cadwyn Ogwen o fewn cyfnod ansicr ac anodd yn y gymuned. Llongyfarchiadau i'r 6 ar eu penodiad, a phob lwc iddynt yn eu swyddi newydd.

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Mae hi'n dechrau oeri, ffrindiau: 'Tarantulas' yn y bath a gwlith ar y ceir yn y bore!

Petai'n dymor yr Hydref arferol, byddem yn awchu i ail-afael yn ein hoff weithgareddau; cyfarfod â ffrindiau rydym heb eu gweld ers dechrau'r gwyliau, ac edrych ymlaen at roi'r byd yn ei le dros aml i banad; ond, yn anffodus, er i'r coronafeirws felltigedig gilio rywfaint o'r tir, mae'n dal i'n bwgwth o bell.

Mae'n help garw bod rhai o'r cyfyngiadau llym a osodwyd arnom ar ddechrau'r gwanwyn, wedi cael eu llacio erbyn hyn. Hoffwn feddwl mai synnwyr cyffredin, a'r ffordd rydan ni, wedi ymdrechu i lynu wrth reolau Cymru sy'n bennaf gyfrifol am hynny. Dydi hi ddim wedi bod yn hawdd.

Fel yn ystod pob Haf erioed, mae teuluoedd Talybont wedi profi cymysgedd o dristwch a llawenydd.

Ar y 5ed o Awst, bu farw'r annwyl Miss Dilys Williams, chwaer Mrs Jean Hughes, Bryn Awel, a fu'n ffyddlon a thriw iddi ar hyd ei hoes. Roedd Dilys yn wraig arbennig iawn, fel y casglwch oddi wrth y Deyrnged hyfryd y rhoddodd ei Gweinidog, y Parch. John Pritchard, iddi ar ddydd ei hangladd, a geiriau hynaws Hefin, ei nai, a welir o dan newyddion o'r Gerlan. Gedy fwlch mawr ymysg ei theulu, ei ffrindiau lu, a staff a thrigolion Plas Ogwen, lle y treuliodd deng mlynedd hapus iawn.

Rhoddwyd llwch Dilys i orwedd ym medd ei rhieni, Owen a Nellie Williams, Ffordd Gerlan, ym mynwent Coetmor.

Mae Jean yn dymuno diolch am yr holl negeseuon o gydymdeimlad, y rhoddion caredig, y galwadau ffôn niferus, ac am bob cefnogaeth gan ei theulu a ffrindiau ar adeg mor drist yn ei hanes. Casglwyd £500 er budd Plas Ogwen, er cof annwyl iawn am Dilys.

Daeth profedigaeth lem i ran Mrs Enid Hughes, 3. Lôn Ddŵr, pan fu farw ei chwaer, Megan, ar Awst 5ed mewn ysbyty yn Rotherham. Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Enid a'r teulu i gyd yn eu colled enfawr. Mae Enid yn dymuno diolch i holl ffrindiau Talybont a Thregarth am y rhoddion caredig tuag at Ymchwil i Glefyd Alzeimer a dderbyniwyd er cof am Megan.

Trist oedd clywed gan Ann Ellis, 3 Cae Bach, am farwolaeth ei chyn-gymdoges, Mrs. Rhodwen Jones, yng Nghartref Nyrsio Ceris Newydd. Pan fyddai ei hiechyd yn caniatáu, byddai Rhoda wrth ei bodd yn mynychu nosweithiau coffi a ffeiriau yn y Capel. Hyd yn oed ar ôl iddi fynd yn gaeth i'r tŷ, byddai'n mynnu cefnogi'n ariannol. Bu Ann a Graham yn garedig iawn efo hi yn ystod yr amser y buont yn byw drws nesaf i'w gilydd.

Bydd rhai o drigolion Cae Bach yn cofio Ritchie Jones, o Rhiwlas, yn byw yn rhif 2 erstalwm. Byddant hefyd, mae'n siŵr, yn cofio Catherine, ei chwaer o Nottingham, a fyddai'n ymweld â'i brawd o dro i dro, ac wrth ei bodd yn dod efo fo i ambell i Oedfa. Erbyn hyn, mae hi'n 97, a'i hiechyd yn fregus iawn. Mae hi mewn cysylltiad cyson â Helen Wyn, Tai Newyddion gynt. Mae Catherine eisoes wedi colli ei merch, Sandra, a'r wythnos o'r blaen bu farw ei mab-yng-nghyfraith. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf a'n cofion cynhesaf ati.

Braf yw gweld Llew Jones, 2 Cae Gwigin, yn ôl yn ei gartref ac yn mwynhau cwmni Enfys a'r teulu. Daliwch ati i gryfhau, Llew. Edrychwn ymlaen at alw heibio am sgwrs unwaith bydd y cyfyngiadau yn cael eu llacio ychydig pellach.

Llongyfarchiadau i Keith a Sandra Jones, 13. Dolhelyg, ar ddod yn nain a taid unwaith eto. Ganwyd hogan fach, Alina Grace, i Leanne, eu merch, a'i chymar, Simon, ar Orffennaf 14eg. Pob bendith i'r teulu bach yn eu cartref ym Mhenmaenmawr.

Anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Sandra sy'n disgwyl mynd am driniaeth i Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Medi.

Yn dilyn cyfnod mor hir 'dan glo', mae plant a phobl ifainc Talybont yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i'w gwahanol ysgolion a cholegau, Gwyddom y bydd rhai'n mentro i fyd gwaith, neu i brentisiaeth, am y tro cyntaf.

Er gwaethaf y miri a fu, parthed graddau a chanlyniadau, gobeithio eich bod i gyd wedi cael eich plesio. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch, a phob bendith i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Callum Jones, 31 Cae Gwigin, a ddathodd ei benblwydd yn 18 oed ar yr 2ail o fis Awst, ac i bawb arall a ddathlodd benblwydd arbennig yn ystod y gwyliau.

Mae pawb yn Nhalybont yn ddiolchgar iawn i Julian Johnson am y gwaith torri a thacluso mae o'n ei wneud o gwmpas y pentref. Roedd Cae Chwarae'r plant cynradd yn ddigon o ryfeddod o dwt i'w croesawu'n ôl . Eich cyfrifoldeb chi yw cadw'r safon yn y cae rwan, blant; ond mae'n gyfrifoldeb ar bob enaid byw ohonom hyd y lle 'ma i gadw'n pentref yn lân ac yn daclus. Diolch, Julian, am dy waith caled!

**Miss Dilys Williams, Bryn Awel, Talybont**
***Teyrnged a draddodwyd yn ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Llun, Awst 17.***

Bu farw Dilys yn 90 mlwydd oed ym Mhlas Ogwen ddydd Mercher, Awst 5. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w chwaer Jean a'r teulu cyfan yn eu colled.

Priodol i ddechrau yw cydnabod y gofal arbennig a gafodd Dilys ym Mhlas Ogwen y blynyddoedd diwethaf hyn. Daethai'n amlwg rai blynyddoedd yn ôl, wrth i'w hiechyd ddirywio ac iddi dueddu i syrthio fwy a mwy, fod arni angen gofal parhaol. Buan y setlodd yno, lle'r oedd hi'n ffrindiau efo pawb a phawb yn ffrindiau efo hi. Hyd at hynny, cawsai Dilys ofal ardderchog gan Jean.

Merch i Owen a Nellie Williams oedd Dilys, wedi ei magu yn Gerlan ar aelwyd hapus iawn, â gweithgareddau Capel Gerlan yn rhan bwysig o fywyd y teulu. Cawsai ei geni ym mis Rhagfyr 1929, ac fe adawodd y problemau parlys a gafwyd ar ei genedigaeth eu hôl arni. Wedi cael ei haddysg yn Ysgol Penybryn ac Ysgol Cefnfaes, gartref gyda'i rhieni y bu hi. Pan fu farw ei thad yn y pumdegau cynnar, roedd Mair ei chwaer hynaf eisoes yn briod ac yn byw yn Llundain. Ac wedi i Jean briodi yn 1960 a symud i fyw i Fethesda, roedd Dilys a'i mam yn dal i fyw yn Gerlan. Ond ymhen amser, symudodd y ddwy i Fethesda, i fod yn nes at Jean a'r teulu. Wedi marw ei mam, arferai Dilys dreulio rhai misoedd yn Llundain gyda Mair a gweddill yr amser gyda Jean. Ac wedi i Mair a Bob ymddeol i Landygai, roedd y ddwy'n parhau i ofalu am Dilys. Wedi marw Mair, daeth Dilys i Dalybont at Jean.

Roedd Dilys yn hoff iawn o blant, ac roedd yn naturiol yn falch iawn pan anwyd Hefin a Gareth i Jean. Roedd hi'n hoff ohonynt, a'r hogia'n hoff iawn ohoni hithau. Ac wedi iddynt hwythau briodi a magu eu teuluoedd eu hunain, roedd Dilys ym mwynhau gweld cenhedlaeth newydd o blant yn y teulu.

Roedd hi'n berson annwyl iawn a hoffus; a mwynhaodd ei bywyd yng nghwmni ei theulu. Doedd hi byth yn cwyno; ac roedd yn ddiolchgar am bopeth. Roedd yn falch iawn o weld pobl yn galw i'w gweld. Byddai'n mwynhau gwrando ar y radio, yn enwedig gwrando ar ganu. Roedd ganddi gof da; ac os oedd hi'n dibynnu ar Jean, roedd Jean yn aml yn dibynnu arni hithau i gofio gwahanol bethau y byddai eu hangen pan fyddent allan yn siopa er enghraifft.

Roedd wrth ei bodd yn mynd ar wyliau efo Jean bob mis Awst, a thripiau Caelloi, Arfonia neu Seren Arian yn rhoi cyfle iddi weld gwahanol drefi a dinasoedd a chyfarfod â gwahanol bobl. Byddai'n mwynhau cael dillad newydd, ac yn morol bod popeth yn gweddu wrth gwrs! Roedd popeth yn ei le a lle i bopeth gan Dilys bob amser.

Mae dros ugain mlynedd ers iddi syrthio a chael damwain ddrwg i'w choes, a gorfod treulio misoedd yn Ysbyty Eryri. Daeth trwy hynny, fel y daeth trwy fwy nag un pwl o waeledd a gwendid wedi hynny. Yn amlwg, roedd iddi gryfder arbennig; a daeth o le digon cyfyng o ran ei hiechyd fwy nag unwaith. Byddai Jean yn ei hatgoffa eu bod nhw'n 'tough' am iddyn nhw gael eu magu ar y mynydd (er na fyddai Dilys yn cytuno â'r disgrifiad hwnnw o fan ei geni).

Cofiwn Dilys am bob math o bethau; ac ymhlith yr hyn y diolchwn amdanynt y mae cryfder corff, harddwch cymeriad, anwyldeb personoliaeth a'r cariad naturiol oedd ganddi at ei theulu a'i ffrindiau.

## Talybont

**Eglwys St Cross**
*Cydymdeimlad*:
Anfonwn ein cydymdeimladau at Mrs Yvonne Davies, Meadowside, a'i theulu. Bu farw Doreen Johnson, mam Yvonne, yn ei chartref yn Basingstoke ym mis Gorffennaf ar ôl gwaeledd hir.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Jean Hughes, Bryn Awel, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Dilys, ym mis Awst.

*Diolch, ac Ail-agor:*
Rydym hynod o ddiolchgar i'r Parchedig Lloyd Jones, Deon Bro, Clynnog, am ei ofal bugeiliol dros y misoedd "dan glo", ac yntau yn gyfrifol am ei blwyf ei hun a thair ardal arall, yn ogystal â Bro Ogwen, sydd heb Ficer ar hyn o bryd.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb sydd wedi dal ati i gyfrannu at waith yr eglwys - mae 'na filiau i'w talu o hyd, torri'r gwair ayyb! - gan gadw'r ffydd ac edrych ymlaen at yr amser pan gawn ni addoli gyda'n gilydd unwaith eto yn Eglwys St Cross. I'r perwyl hwn, rydym yn anelu at ail-agor y drysau ddechrau mis Hydref, ac yn paratoi at hyn trwy ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ail-agor mannau addoli a gweddïo'n ddiogel, ac ymgymryd ag asesiad risg. I ddechrau, gan nad ydym yn cael canu, rydym yn bwriadu cynnal gwasanaethau efo gweddïau a darlleniadau yn unig (a phregeth neu fyfyrdod, efallai), ac efo cerddoriaeth ar yr organ yn gweu y cyfan i'w gilydd. Ond mae'n bosib byddwn yn gallu darllen geiriau yr emynau yn ddistaw bach yn lle eu canu, efo'r organ yn canu'r emyn dôn. Gawn ni weld.

*Bore Coffi:*
Yn anffodus, mae'r rheolau yn ein gwahardd rhag cynnal gweithgareddau cymdeithasol yn yr Ysgoldy ar hyn o bryd. Pe bai'r tywydd yn braf, buasem yn gallu cynnal bore coffi yn yr awyr agored, y tu allan i'r Ysgoldy, OND...

**Capel Bethlehem**
*Colli Aelodau*
Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth tair o'n haelodau yn ystod y misoedd diwethaf, sef Mrs. Gwyneth Roberts, Fferm Cochwillan, Mrs. Nerys Coleman, Bryn, Llandygai a Miss Dilys Williams, Bryn Awel. Byddwn yn gweld eu colli yn arw iawn. Anfonwn ein cofion at eu teuluoedd.

*Ail-afael yn Ara deg*
Oherwydd Cofid 19 ni fu'n bosib cynnal oedfa ym Methlehem ar ôl 15 Mawrth. Bu'n gyfnod rhyfedd heb oedfa yn y capel, ond yn dilyn y llacio rheolau diweddar, 'rydym wedi penderfynu agor drysau'r capel ar gyfer cynnal oedfa – am un Sul y mis o hyn at ddiwedd y flwyddyn, i ddechrau. Byddwn, wrth gwrs yn cydymffurfio â'r canllawiau diogelwch angenrheidiol. Cynhelir ein hoedfa gyntaf ar 13 Medi yng nghwmni'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard.

Yn anffodus, nid yw'n bosib cynnal Ysgol Sul na chyfarfodydd Bwrlwm Betlehem ar hyn o bryd. Cawn weld beth fydd y sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn nesaf!

## Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn ail-agor

Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn edrych ymlaen at groesawu'r cyhoedd yn ôl i'w harchifdai. Bydd Archifdy Meirionnydd, Dolgellau yn ail-agor ar y 7fed o Fedi, ac Archifdy Caernarfon yn ail-agor ar y 9fed o Fedi. Byddant yn gweithredu system apwyntiadau yn unig, a bydd angen archebu dogfennau o flaen llaw. Bydd angen diwrnod neu fwy o rybudd fel bod modd estyn y dogfennau a sicrhau fod y dogfennau hynny ar gael.

Meddai Lynn Francis, Prif Archifydd Cyngor Gwynedd: "Rydan ni'n edrych ymlaen at weld pobl nôl yn ein harchifdai, yn gwneud y mwyaf o'r llyfrau, cofnodion a lluniau hanesyddol sydd gennym ar gof a chadw yma.

"Er mwyn diogelu cwsmeriaid a staff, bydd trefniadau ychydig yn wahanol i arfer yma ac rydym yn ddiolchgar o flaen llaw i bobl am eu dealltwriaeth a'u hamynedd wrth i ni ailgyflwyno'r gwasanaeth gwerthfawr yma."

Gellir archebu deunydd drwy'r bori drwy'r catalog ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru. Os nad ydych yn sicr pa ddogfennau yr ydych eu hangen, gallwch gysylltu fel eich bod yn gallu cael cymorth gan aelod o staff. Neu os nad ydych yn gallu ymweld mae croeso i chi gysylltu gyda'r Archifdai i drafod gwasanaethau eraill.

Cysylltwch drwy e-bostio archifau@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio:

Archifdy Caernarfon (01286) 679 095

Archifdy Meirionnydd, Dolgellau (01341) 424 682

# Holiadur Dyfodol Cefnfaes

Y mae cyfle arbennig wedi codi wrth i Ganolfan Cefnfaes gael ei drosglwyddo o Gyngor Gwynedd i Bartneriaeth Ogwen o dan gynllun Trosglwyddo Asedau y Cyngor. Yn 2017, fe gyhoeddwyd adroddiad er mwyn darganfod potensial yr adeilad a'i ddyfodol. Darganfuwyd potensial ar gyfer pedwar defnydd gwahanol i'r safle.

* Gofod Cymunedol - gofod a fyddai'n parhau gyda'r defnydd sydd eisoes yn cael ei wneud o'r ganolfan, megis cynnal digwyddiadau gyda clybiau gwahanol, cyfarfodydd cymunedol a mwy.

* Gofod Economaidd - gofod aml-bwrpas, yn cynnwys cyfuniad o unedau i'w gosod i fusnesau, gofod cyd weithio, ystafell hyfforddiant a gofod gwneud. Mae'r syniad o ofod Creu neu Wneud wedi'i ysbrydoli gan lwyddiant prosiect M-SParc ar Stryd Fawr Bethesda lle roedd cyfle i unigolion i ddefnyddio offer technolegol fel argraffydd 3D

* Gofod aros/llety - darganfuwyd bod angen am ddarpariaeth llety ym Methesda, ac mae creu Byncows "Boutique" wedi'i awgrymu. Gall y gofod hwn fod ar gael i unrhyw un ei logi neu ar gyfer grwpiau a fyddai yn derbyn hyfforddiant yn yr adeilad. Gellir hefyd creu cegin hunan-arlwyol ar gyfer y gwesteion.

* Fe fydd darpariaeth ar gyfer hyfforddiant ar baratoi bwyd mewn modd gynaliadwy gan ddefnyddio cynnyrch lleol, yn cael ei ddarparu, a gan weithio hefo partneriaid cymunedol eraill lleol megis Fferm Moelyci. Bydd y gegin hefyd ar gael i'w defnyddio i unrhyw un sy'n llogi gofod yn y ganolfan.

Er mwyn symud ymlaen gyda'r cynlluniau, hoffwn i aelodau o'r gymuned roi eu barn a rhannu syniadau. Hoffwn weld sut allwn weithio gyda'r gymuned wrth symud ymlaen i ddatblygu y prosiect. Bydd eich ymatebion yn ein helpu gyda cynlluniau pellach wrth geisio am grantiau, a datblygu cynllun busnes.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/FMLT9B3

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Mae Eirlys Edwards wedi rhoi gorau i gasglu newyddion yr ardal ar gyfer y Llais. DIOLCH i chi, Eirlys, am eich gwasanaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i ddau o bobl ifanc y pentref

Cafodd Esther Goa lwyddiant gwych yn ei Lefel A. Mae Esther am fynd i Goleg Imperial yn Llundain i wneud cwrs Meistr mewn peirianneg sifil. Pob Lwc iti, Esther, yn y ddinas fawr.

Mae Steffan Evans, Rhif 13, wedi cael gradd Meistr Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd mewn Peirianneg Awyrofod o Brifysgol Bryste. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd gyntaf yn Bletchley. Mae ei ffrind Hannah Sharpe o Benrhos am fynd gydag ef.

**Gwellhad Buan**
Gwellhad buan i Mrs Joan Beer, Nilgri, a Lis Jones, Rhif 21, y ddwy wedi dychwelyd adref ar ôl eu damwain.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn meddwl am Mr Ernie Coleman o'r Bryn. Bu farw ei wraig Nerys yn ddiweddar.

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
*Dymuniadau gorau*
Cyfarchion i bawb yn ein plwyf ac i ddarllenwyr y Llais! Gobeithio, unwaith eto, eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel.

*Casgliad*
Gwerthfawrogir parodrwydd y gynulleidfa i barhau i yrru cyfrannau ariannol yn reolaidd i'r Wardeiniaid neu i'r Trysorydd. Nid yw'n bosib, wrth gwrs, cynnal unrhyw weithgaredd i godi arian ychwanegol yn ystod yr argyfwng Cofid-19. Os dymunir mwy o wybodaeth, gellir cysylltu ag Warden y Ficer, Ann E. Williams, Llwyn Coed, Llanllechid, Bangor LL57 3EF. Rhif Ffôn 01248 600719.

*Atgyweirio'r Eglwys Rhan 1*
'Rydym yn gobeithio bydd y gweithwyr arbenigol yn ail gydio yn y dasg o atgyweirio rhan o'r eglwys ger yr allor ym mis Medi. Mae'r pensaer a'r cwmni adeiladu wedi ymweld â'r safle ym mis Awst a chyfarfod nifer fechan o swyddogion yr eglwys. Yn y cyfamser bydd yr eglwys yn parhau ar gau i'r cyhoedd ac nid yw'n bosib cynnal unrhyw wasanaeth yn yr adeilad. Bydd Neuadd Talgai yn y pentref ar gau hefyd.

*Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai*
Yn ystod cyfnod anodd y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost neu dros y ffôn ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Croeso i chi oleuo cannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdod a dweud gweddi gyda ni. Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad Y Parchedig Lloyd Jones, Clynnog neu â'r Archddiacon, Y Hybarch Mary Stallard, Llandudno ynglŷn ag unrhyw fater arall.

# Dweud eich dweud am Gelfyddyd ar Bresgripsiwn

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn trigolion y sir am y syniad o sefydlu cynllun Celfyddyd ar Bresgripsiwn.

Mae'r Coronafeirws wedi effeithio ar bob agwedd o'n bywydau, ac un o'r heriau amlwg ydi'r angen i edrych ar ôl ein hiechyd a lles meddyliol. Mae straen, gorbryder, unigrwydd ac iselder yn rhywbeth sy'n gallu effeithio ar bawb o dro i dro.

Gyda hynny, mae Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd yn ymchwilio i'r posibiliadau o sefydlu cynllun Celfyddyd ar Bresgripsiwn yn y sir. Mae cynlluniau o'r fath ar gael mewn amryw o ardaloedd yn y DU ond nid yma yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Eglurodd Gwawr Wyn Roberts, Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd: "Mae cynlluniau o'r fath yn galluogi pobl dderbyn presgripsiwn i fynychu neu wneud gweithgaredd celfyddydol fel arlunio, canu, dawnsio, actio ayb er mwyn eu galluogi i fynegi eu hunain a chyfrannu'n gadarnhaol at eu hiechyd a'u lles.

"Gyda dyfodiad COVID-19 credwn y bydd y galw am y math yma o gyfleoedd yn fwyfwy pwysig wrth i gymdeithas ddygymod ag adfer yn raddol, felly penderfynwyd parhau â'r gwaith ymchwil."

Y cam cyntaf yw treulio cyfnod yn ymchwilio i'r dulliau fwyaf addas i gynnal cynllun o'r fath. Cwmni CELyn sydd yn arwain y gwaith pwysig hwn mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio'r prosiect. Mae arolwg ar lein wedi ei lansio i ganfod barn a syniadau trigolion Gwynedd am sefydlu cynllun o'r fath.

Meddai Caryl Elin Lewis o Gwmni CELyn: "Rydym yn falch iawn o gael ein penodi i ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn. Mae potensial mawr i uchafu statws y celfyddydau yng Ngwynedd a'i rôl mewn gwella iechyd a lles trigolion.

"Mae'r arolwg yn ffordd o gasglu gwybodaeth i ganfod os oes diddordeb cychwynnol ac adnabod beth sydd yn bwysig i drigolion Gwynedd. Mae'n hawdd i'w gwblhau, dylid ddim cymryd mwy na phum munud."

Ychwanegodd Gwawr Wyn Roberts: "Mae'r ymchwil yn gam pwysig tuag at sefydlu cynllun Celfyddyd ar Bresgripsiwn yma yng Ngwynedd. Mae canfod barn a syniadau trigolion yn allweddol os ydym am ddatblygu cynllun sydd yn hawdd i gael mynediad ato ac yn cwrdd ag anghenion bobl yn effeithiol. Byddwn yn annog cymaint â phosib i lenwi'r holiadur.

"Mae'n debygol y bydd archwilio dulliau digidol o weithio yn rhan allweddol o'r cynllun, er rydym hefyd yn gobeithio y bydd modd cynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y dyfodol pan fydd modd gwneud hynny'n ddiogel."

Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed gan drigolion a grwpiau perthnasol – mae'r arolwg ar gael yma: https://arolwg.gwynedd.llyw.cymru/index.php/175949?lang=cy Bydd ar agor tan 21 Medi.

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead** Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Penblwydd hapus arbennig**

Bu cryn ddathlu yn Gerlan dros fis Gorffennaf ac Awst wrth i ambell drigolyn gael pen-blwydd arbennig.

Penblwydd hapus iawn i Sian Owen, Ciltwllan, ar ei phen-blwydd yn hanner cant.

'Roedd Non Thomas o Stryd Uchaf hefyd yn cael ei phen-blwydd yn 50. Gobeithio bod y ddwy ohonoch wedi cael amser da yn dathlu er gwaetha sefyllfa'r cyfnod clo.

Draw yn Gwernydd, 'roedd Linda Brown yn 70 ym mis Gorffennaf. Cafwyd dathliad yn yr ardd efo ambell i ffrind yn picio i'r adwy i ddymuno'n dda iddi.

Hoffai Linda ddiolch am bob cerdyn, anrheg a dymuniad da iddi dderbyn ar yr achlysur arbennig yma.

Penblwydd hapus iawn i Mrs Jini Jones oedd yn byw yng Ngwaen Gwiail gynt. 'Roedd Anti Jini yn 90 a chafodd gwmni teulu agos i ddathlu yng nghartref ei merch yn Sir Fôn. Gobeithio i chi gael amser da yn dathlu a hel atgofion.

**Dymuno'n dda**

Hoffai Ellen Edwards Glanrafon, ddymuno gwellhad buan i'w mam Irona Owen, Coetmor Terrace. Mae Irona wedi torri ei garddwrn ac mae'r teulu i gyd yn dymuno gwellhad buan iddi.

Gyrrwn ein cofion hefyd at Mrs Jini Jones Bryn Caseg sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers chydig o wythnosau bellach. Dymunwn wellhad buan ichi Anti Jini.

**Croeso adref**

Croeso adref i Rhiannon O'Marah, Gwernydd. Mae Rhiannon wedi bod yn dysgu yn Thailand am gyfnod ond mae erbyn hyn wedi cael swydd yn ôl efo Cyngor Gwynedd.

Pob dymuniad da iti Rhiannon – bydd yn braf dy weld o gwmpas Gerlan unwaith eto.

**Cydymdeimlo**

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Pam Roberts 29 Ciltrefnus a'r teulu. Collodd Pam ei mab Gwynfor diwedd Awst. Hogyn tawel ac annwyl iawn – bydd chwith mawr ar ei ôl. Mae ein meddyliau efo chi gyd fel teulu.

Gyrrwn ein cofion cynhesaf at deulu Huw ac Amanda Davies Tŷ Dŵr hefyd. Ar y 31ain o Orffennaf, bu farw brawd Huw, Trefor Davies, yn dawel yn ei gartref yng Nghefn Cwlyn, Braichmelyn yn 66 oed. Gŵr annwyl Clara a thad cariadus Robin, Glyn, Rhys a Ruth. Mab annwyl y diweddar Haydn a Vera Davies, Erw Faen, Tregarth a brawd y diweddar Alan, a Gwen. Ein cofion hefyd at Rhian a'r teulu, chwaer Huw, sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd erbyn hyn.

**Dathlu Llwyddiant**

Llongyfarchiadau mawr i bawb ohonoch sydd wedi llwyddo i basio arholiadau pwysig yn ystod y cyfnod clo anodd yma. Dymuniadau gorau i chi beth bynnag yw eich cam nesaf.

Un fu'n dathlu llwyddiant gan iddi basio ei gradd oedd Elin Cain Roberts Ffordd Gerlan. Llwyddodd Elin i gael gradd dosbarth cyntaf ag anrhydedd mewn Sbaeneg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi'n edrych ymlaen erbyn hyn i fynd i wneud MA yng Nghaerdydd ac wedi derbyn Ysgoloriaeth Olwen Reckert gan y brifysgol ac Ysgoloriaeth Pantyfedwen. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r dyfodol.

**Tywydd Garw**

Cafwyd tywydd garw o law trwm a gwynt cryf ddiwedd Awst a achosodd nifer o broblemau yn yr ardal. Gyrrwn ein cofion at unrhyw un sydd wedi cael eu heffeithio gan hyn.

**Tymor Newydd**

Pob dymuniad da i bawb sydd yn cychwyn yn ôl yn yr ysgol a'r coleg ym mis Medi. Dwi'n siŵr bod y mwyafrif ohonoch yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i ryw fath o drefn ar ôl cyfnod hir o fod adref.

Bydd rhai ohonoch yn cychwyn ysgol am y tro cyntaf neu'n cychwyn mewn ysgol newydd – pob lwc i chi gyd!

**Atgofion Hefin Hughes, 1 Stryd Hir, am Miss Dilys Williams, gynt o'r Gerlan, a fu farw ar 5 Awst 2020.**

**Anti Dil.** Modryb i Gareth a finna ond yn fwy fel chwaer fawr! Colli nain pan o'n i yn dair ar ddeg oed, ac efo mam ag Anti Mair ma' Dil wedi bod, yn ôl a blaen ers hynny, ac wedi cael y gofal gora' un gan y ddwy.

Dau air dwi am ddefnyddio i ddisgrifio Anti Dil. Y cyntaf ydi "wonder woman", am fod mam, Gareth a finna wedi trefnu y diwrnod yma tua tair gwaith yn y blynyddoedd dwytha'. Tua blwyddyn a hanner yn ôl mi gafodd ei rhoi ar "palliative care", a ninna'n meddwl fod y diwadd wedi cyrradd, ond mi gath hwyl ar ein penna ni eto, do!

Ma' Anti Dil wedi bod yn gwmpeini mawr i mam ers colli dad - a mam mor ifanc! Y ddwy wedi crwydro efo Caelloi ac Arvonia i bob rhan o'r wlad am wylia'.

Yr ail air ydi "perfectionist". Pam? Doedd pum munud i ddeg a pum munud wedi deg ddim digon da ganddi. Deg ar y dot oedd panad, a hannar dydd ar y dot oedd cinio. Cofio isda efo'n gilydd fel teulu, a Gareth a finna yn ifanc a'r cwshins ar y soffa'n bob siâp ar yn hola. Os oedd un ohona ni'n codi mi fysa Dil yna yn syth yn ei wasgu a'i sythu yn ôl fel oedd o i fod. Ma'r holl sôn am olchi dwylo wedi bod efo'r Coronavirus 'ma. Dim byd i Dil! Golchi ei dwylo a llnau ei dannadd ar ôl bob pryd bwyd - am tua chwartar awr bob tro!

Mi fuaswn yn medru bod yma drw' dydd yn dweud storis doniol amdani!

Mi fuaswn yn hoffi diolch o waelod calon i Plas Ogwan a'r staff i gyd am y gofal arbennig a gafodd dros y ddeg mlynadd ddiwethaf.

Nos Dawch Dil !

*Hefin.*

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

# Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas ☎ 01248 355336

**Gwobrau Tir na n-Og**

**Pobl drws nesaf**, llyfr gan Manon Steffan a'r dylunydd Jac Jones a ddaeth i'r brig yn y categori oedran Cynradd. Llyfr llun a stori ydyw ar gyfer plant 4 -7 oed ac yn ein hannog i barchu plant ac i beidio â beirniadu rhywun sy'n edrych ac yn ymddwyn yn wahanol i ni.

Dyma'r pumed waith i Manon ennill y wobr yma, record yn sicr. Llongyfarchiadau i ti, rydym yn ymfalchïo yn dy lwyddiant.

Mae Manon a'r hogiau nawr yn byw yn Tywyn, Meirionydd ond wedi ei magu yn Rhiwlas, mynychu ysgol y pentref ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd hefyd yn feirniad Rhyddiaith yn yr Eisteddfod Am-Gen eleni.

**Cydymdeimlo**

Yn dawel ym Mryn Seiont Newydd bu farw Mrs Nansi Thomas. Rhes Gordon, Bethesda gynt a Mam Carys a Mam-yng-nghyfraith Cynrig Hughes, Rallt Uchaf, Pentir. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch ac at ei wyresau Elin a Cadi a'u teuluoedd.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau i Melfyn a Linda Jones, Erw Wen ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau yr achlysur er gwaethaf y cyfnod clo yma.

**Geni**

Er yn ddiweddar llongyfarchiadau i Lliwen a Glyn Jones, Ty'n Gadlas Pentir ar enedigaeth mab bach , Deian Glyn a fu yn yr ysbyty am dipyn wedi'i eni ond sydd bellach wedi dod yn ei flaen yn dda. Cofion atoch.

Lled cae oddi wrthynt ganed merch fach, Greta, i Mared a Dfr Aled Morris a chwaer fach i Harri. Maent yn byw yn Hendre, Carfan. Ein dymuniadau gorau i chwithau hefyd.

Yn yr un modd llongyfarchiadau i Kim a Dylan, Hafod Lon ar enedigaeth merch fach, Ania a chwaer i Ella a Jac. Dwi'n siŵr fod teulu Rhiwlas wedi dotio.

**Seland Newydd**

Ar rhaglen Heno cafwyd cyfweliad â'r actor Owain Arthur, un a fagiwyd yn Rhiwlas a sydd yn Seland Newydd ar y funud a newydd orffen ffilm gan Disney o'r enw "The one and only Ivan" Roedd enwau mawr y byd ffilmiau yn y cast, Angelina Jolie, Danny DeVito, Helen Mirren ayb. Dyma a ddywedodd ar Heno, "hogyn bach o Rhiwlas wedi mopio'n lân". Mae'n parhau yn Seland Newydd yn ffilmio Lord of the Rings, cyfres gan Amazon. Pob hwyl gyda'r ffilm yma.

**Cneifio**

Un arall sydd ymhell i ffwrdd ar y funud yw Gerallt, gŵr Rhian a mab Margaret ac Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd. Mae yn cneifio yn y Malvinas ac fe fydd wedi treulio rhai misoedd yno. Dyma'r eildro iddo fynd i gneifio yno.

**Llên y Llanw**

Colofn yn y papur bro Llanw Llŷn yw'r uchod a derbyniodd Rhian gopi ohono gan fod teyrnged i'w thad yno. Mae'r golofn yng ofal Gareth Neigwl ac mae ef yn rhoi ei deyrnged ei hun i John Huw. Fe ddywedodd mai yn Arfon y magwyd John ond roedd ei wreiddiau, ar ochr ei dad, yn sownd yn naear Llŷn. Mae'n debyg y byddai'r ddau'n cyfarfod â'i gilydd ar brydiau a byddai John yn sôn am ei wyliau yng nghartref ei daid a'i nain yn Rhiw a darganfod eu bod yn rhannu'r un gwreiddiau hefyd. Fe hoffai sôn am ei gyfnod yng Ngholeg Madryn a arweiniodd wedyn at gyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yna swydd gyda'r Weinyddiaeth Amaeth. Mae'r teulu yn sicr yn gwerthfawrogi y deyrnged iddo yn Llanw Llŷn.

**Y cyfnod clo**

Mae'r cyfyngiadau wedi llacio dipyn ond rhaid bod yn hynod o ofalus o hyd. Bu'n gyfnod dyrys i'r ieuenctid, yn enwedig y rhai oedd i fod i eistedd arholiadau, a gobeithio eu bod wedi eu plesio â'r canlyniadau. Pob dymuniad da i'r rhai sy'n mynd ymlaen i addysg uwch a hefyd i'r rhai sy'n mynychu'r ysgol am y tro cyntaf a'r rhai fydd yn newid ysgol.

**Y Neuadd**

Mae dipyn o waith cynnal a chadw wedi'i wneud yn y Neuadd ond heb orffen yn gyfan gwbl ac mae pethau'n edrych yn addawol. Hefyd rydym yn gwneud asesiad risg ac wedi cael dipyn o sylwadau pwysig gan Steffan Job sydd yn llunio'r canllawiau inni ac rydym yn hynod ddiolchgar iddo ef ac i Elfyn hefyd.

Mae datganiad rheolaidd ar gael ac yn sicr fe fyddwn yn cyhoeddi pan fydd popeth yn ei le.




## Cefnogwyr brwd

Bu dathlu mawr yn rhai o aelwydydd Rhiwlas wedi i dîm pêl-droed Lerpwl ddod yn bencampwyr am y tro cyntaf ers deg mlynedd ar hugain. Dyma un o gartrefi'r pentref wedi ei addurno gyda baneri coch!

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:
Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR ☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE ☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

## Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Llongyfarch Disgyblion a myfyrwyr**
Llongyfarchiadau i bawb o'n hieuenctid sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau ysgol a choleg eleni. Diolch i chi i gyd am weithio'n galed er gwaethaf trafferthion y cofid a bod eich tymor o astudio wedi dod i ben yn ddisymwth.

Cofiwch adael i ni wybod os yr ydych yn symud o'r ardal i astudio a dymunwn y gorau a phob llwyddiant i bob un ohonoch.

Daeth newyddion i law am lwyddiant Manon Owen, 9 Tal y Cae, a lwyddodd i gael dosbarth cyntaf yn ei arholiadau gradd yn ninas Birmingham mewn Gwyddoniaeth Meddygol. Llongyfarchiadau Manon.

**Profedigaeth**
Ar Orffennaf 8 yn Ward Glyder Ysbyty Gwynedd bu farw Janice Wynsome Doyle, 41 Bro Syr Ifor. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Peter, ei phlant Ann a Nick, Sandra a Paul a Tracey a'r wyrion Sophie, Katie, Luke, Ffion ac Ari, ei chwaer Eleri a'i brawd Cerwyn. Roedd Janice hefyd yn chwaer i'r ddiweddar Avril. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor.

Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth Trefor Davies ar Orffennaf 31 ac yntau yn byw yn Cefn Cwlyn, Braich Melyn. Roedd wedi treulio ei ieuenctid yn Erw Faen, Tregarth, yn fab i Haydn a Vera Davies. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w briod Clara, ei blant Robin, Glyn, Rhys a Ruth, ei ddwy chwaer Gwen a Rhian a'i frawd Huw, a'r holl deulu. Roedd Trefor hefyd yn frawd i'r diweddar Alan. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar Awst 13.

Ar Awst 1 yn Saudi Arabia bu farw Ifan Felix Richards, mab y diweddar Dr Evan Richards a'i briod Sheila Richards gynt o Tal y Cae , Tregarth. Anfonwn ein cofion at ei wraig Serenia, ei frawd a chwaer Ursula a Dafydd, gyda phob cydymdeimlad.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Er na fydd aelodau Cangen Tregarth o Ferched y Wawr yn cyfarfod yn Festri Capel Shiloh ym Mis Medi gobaith y Pwyllgor yw cael cyfarfod yn y Ganolfan yn Nhregarth ar gychwyn y mis. Ni fydd pawb o'r aelodau efallai yn teimlo fel cyfarfod mewn grwp ar hyn o bryd ond mae cyfle i ymaelodi a chyfle i gysylltu gyda'r naill a llall drwy y cyfryngau cymdeithasol. Am fwy o fanylion cysyllter â Myfanwy Harper (362139) neu Alison Carden (600946)

## Cystadleuaeth Garlleg 2020

Enillydd Cystadleuaeth Garlleg Moriarty-Thomas a gynhaliwyd yng ngwesty'r Douglas ar 22 Awst oedd Kevin Hughes, neu Kevin Mac fel mae'n adnabyddus i bawb! Dim ond 11 oedd yn cystadlu eleni, dealladwy o dan yr amgylchiadau! Ta waeth, cafwyd pnawn bach difyr. Yr elusen lleol sy'n derbyn y rhodd o £125 (£95 cystadleuaeth a £30 o'r Douglas) yw Cylch Meithrin Tregarth.

Diolchwn i'n beirniaid sef Andrew Carson, Simon Williams, Malcolm Creasey a Christine Edwards. Hefyd diolch i'n hybwyr sef Greenough Roofing (Jon Greenough wedi rhoi y tlws parhaol) ac Andrew Carson, Northern Welsh Quarries, sydd yn rhoi tlws i'r enillydd i'w chadw.

Diolch i bawb a gymerodd ran, ac edrychwn ymlaen at y gystadleuaeth nesaf!




## Cwis

### Adnabod Bro Llais Ogwan

**ADNABOD BRO LLAIS OGWAN 3**
Mae llythyren gyntaf pob ateb yn cael ei roi i chi, ond mae rhai o'r atebion efo mwy nac un gair.

A: Stad o dai ger y Caledffrwd
B: Glasinfryn
C: Ddim yn addoldy ym Mraichmelyn
D: Cae lliwgar
E: Mae coflech iddo ar siop chips Mabinogion neu Ogwen Stores erstalwm
F: Roedd y siop yma yng Ngharneddi
FF: Cyfaill i Caradog o'r Maes
G: Dringwch y rhain, nid ydynt yn ddi-liw
H: Cartref y defaid enwog
I: Mae gan yr ysgolhaig yma Fro
J: Prifddinas a chapel
L: Rhwng Plas Ffrancon ac Ysgol Llanllechid
LL: Ger Castell Penrhyn
M: Grwp a enwyd ar ôl prifathro
N: O groeslon Coetmor i fyny
O: Afon
P: Cae chwarae i'r rhochwyr
R: Caellwyngrydd
RH: Allt werdd
S: Fferm ar y ffordd gefn i Dalybont
T: Anedd-dai i'r gwneuthurwyr dillad
W: Un o'r Moelion
Y: Cerdd enwog am anifail gan fardd sydd wedi ei gladdu yng Nghoetmor

Atebion ar dudalen 21

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763

# Bethesda

**Mary Jones,**
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Ysbyty**

Bu sawl un yn yr ysbyty yn ystod y cyfnod clo, ond da deall eu bod gartref erbyn hyn, ac yn gwella. Anfonwn ein cofion atoch i gyd:

Mr. John Davies, Tanysgafell; Mrs. Helen Griffith, Adwy'r Nant; Mrs. Mary Jones, Erw Las; Mrs. Megan Phillips, Rhes Gordon; Mrs. Elsie Evans, Garneddwen; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mr. Gwynfor Williams, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Margaret Rees Williams, Rhos y Coed; Mrs. Vera Davies, Dolgoch; Mrs. Rita Harris, Bryn Bella; Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg.

**Damwain**

Drwg gennym glywed am ddamweiniau Mrs. Gwenno Evans, Stâd Coetmor, a Mrs. Jessie Jones, Bryntirion. Yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty mae'r ddwy yn gwella erbyn hyn. Cofion atoch.

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Siôn Richards, Allt Penybryn ar enedigaeth Iwan, eu mab.

**Hen Nain**

Llongyfarchiadau i Mrs. Carol Owen, Maes y Garnedd, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen nain.

**Penblwydd yn 90**

Ar Awst 8fed fe ddathlodd Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed. Gobeithio i chi fwynhau'r te prynhawn gyda'r teulu. Llongyfarchiadau!

**Diolch**

Hoffai Jean Hughes, Bryn Awel, Talybont, ddiolch o waelod calon i'w theulu a'i ffrindiau ym Methesda am y negeseuon o gydymdeimlad, y galwadau ffôn niferus, y rhoddion caredig, a'r holl gefnogaeth a dderbyniodd pan gollodd ei hannwyl chwaer, Dilys, ar Awst 5ed. Casglwyd £500 er budd Plas Ogwen, lle cafodd Dilys ofal arbennig.

**Cydymdeimlo**

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar ac 'rydym yn anfon ein cydymdeimlad atynt i gyd:-

Andrew, Karen a'r teulu, Llain. Colli chwaer ym Manceinion.

Arwel a Linda Hughes, Garneddwen. Colli mab yng nghyfraith yn 49 mlwydd oed, sef Robin Huw Jones.

Mrs. Helen Roberts a'r teulu, Ffordd Ffrydlas. Colli ei chwaer yng nghyfraith, a hefyd modryb yn Sir Fôn, sef Mrs. Megan Jones yn 92 oed.

Elin, Hedd a'r hogiau, Garneddwen. Colli nain a hen nain, sef Mrs. Nancy Thomas, Rhes Gordon.

Michael, Laura a'r hogiau, Garneddwen. Colli modryb yn Nhalybont sef Miss Dilys Williams.

**Marwolaethau**

*Mrs. Medi Williams*

Ar Ebrill 5ed yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Medi Williams, Ystad Coetmor yn 91 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. Gwilym Williams, mam garedig i Nia a Gwyn, a mam yng nghyfraith i John a'r ddiweddar Christine. Roedd yn nain hoffus i Paula a Jason, a hen nain i Ava. Bu Mrs. Williams yn athrawes yn ysgolion y Gerlan ac Abercaseg, ac 'roedd yn berson hoffus ac annwyl. Roedd yn aelod selog o Gapel Jerusalem ac o Glwb yr Henoed yn Rachub.

Bu'r angladd yn breifat yn Amlosgfa Bangor a Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

*Lliwen Mair Hughes*

Yn ei chartref yn 10 Llan Deg, ar Ebrill 8fed, bu farw Lliwen Mair Hughes yn 39 mlwydd oed. Cymar i Adi a mam annwyl a gofalus i Ceinion, Billy Jac a'r diweddar Tristan Jac. Roedd yn ferch i Gillian a Dafydd, Llanllechid, ac yn chwaer i Carwyn. Roedd yn ferch garedig a hoffus, ac yn aelod o staff Ysgol Llanllechid. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd preifat yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, Ebrill 17eg. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu colled fawr.

*Mrs. Vivien Parry*

Ar Orffennaf 14eg, yn ei chartref yn 10 Rhos y Coed, bu farw Mrs. Vivien Parry yn 60 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. Gavin Parry a mam hoffus i Sophie a Thomas. Chwaer Amanda a'r diweddar Keith, chwaer yng nghyfraith i Ruth a modryb garedig. 'Roedd yn ferch i'r diweddar Percy a Vera Parry, Erw Las. Bu Vivien ac Amanda yn rhedeg siop trin gwallt Siswrn Arian am flynyddoedd. 'Roedd yn berson tawel a bonheddig iawn. Cynhaliwyd angladd Vivien ddydd Mawrth, Gorffennaf 28, gyda gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Bangor a Mynwent Coetmor, gyda'r Parchg. Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn a chwi i gyd fel teulu.

*Mrs. Arfona Edwards*

Yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 25, bu farw Mrs. Arfona Edwards, Maes y Garnedd, yn 92 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Arthur Edwards, yn fam hoffus i Wyn, Margaret, Eirwyn a'r ddiweddar Rhian, ac yn fam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl. 'Roedd yn wraig fedrus iawn, yn aelod yng Nghapel Carmel, Llanllechid, Clwb y Gerlan a Chlwb Henoed Rachub, ac yn cefnogi bob bore coffi ar ddydd Sadwrn. Cynhaliwyd ei hangladd yn breifat yn Amlosgfa Bangor ar Awst 7 a Mynwent Coetmor gyda'r Parchg. Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.

*Mr. Gareth Huw Jones*

Ar Orffennaf 26, yn Ysbyty Stoke, bu farw Mr. Gareth Huw Jones (Gari), Stryd y Dŵr, yn 74 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Olive Jones a thad hoffus Colin ac Alison. Tad yng nghyfraith Elle a Nikki, a thaid annwyl Dewi, Lois, Megan, Owain, Glesni, Caleb a Mari. Person tawel a boneddigaidd oedd Gari, bob amser yn barod am sgwrs â phawb pan yn cerdded y fro bob dydd. Bu'n gweithio yn Chwarel y Penrhyn hyd at ei ymddeoliad. Y Parchg. Ddr. Hugh John Hughes a arweiniodd y gwasanaeth preifat a gynhaliwyd ar Awst 6ed yn Amlosgfa Bangor a Mynwent Coetmor. 'Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

*Mrs. Morfudd Mary Eluned Ashworth*

Ar Awst 8fed, yn dawel yng Nghartref Plas Ogwen, bu farw Mrs. Ashworth, 17 Rhes Gordon, yn 88 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Victor Ashworth, mam ofalus a charedig i Sharon a Cheryl, nain hoffus i Ffion, Gwion ac Ynyr, a hen nain i Owain ac Amelia. Fe'i ganwyd yn Nhregarth ac ymgartrefodd yn Ffordd Ffrydlas wedi ei phriodas yng Nghapel Brynteg ac fe ddaeth yn aelod gyda'i phriod yn Eglwys Crist Glanogwen. Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Iau, Awst 13eg, gyda gwasanaeth preifat yn yr Eglwys honno a Mynwent Eglwys Coetmor. Y Parchg. Lloyd Jones oedd yn arwain y gwasanaeth, a chafwyd darlleniad gan Cheryl, a theyrnged i'w hen nain gan Owain. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

*Dafydd Hughes*

Yn sydyn, ar ddydd Llun, Mehefin 29, bu farw Dafydd Hughes, Stryd John. 'Roedd Dafydd yn ffyddlon yn Gorffwysfan ac yn mwynhau galw yno i gael sgwrs, ac wrth ei fodd gyda'r gwibdeithiau amrywiol. Bu ei angladd ar ddydd Gwener, Gorffennaf 10fed yn Amlosgfa Bangor gyda gwasanaeth preifat i'r teulu. Claddwyd ei weddillion ym medd y teulu ym mynwent Eglwys Coetmor. Y Parchg. Lloyd Jones oedd yn gwasanaethu yn y ddau le. Cydymdeimlwn â'i gefnder, Barry, ac Ann Fôn, a fu mor garedig hefo Dafydd.

## Bethesda

**Marwolaethau**

*Mrs. Ann Elizabeth Thomas*

Cofiwn am Ann Elizabeth Thomas (Nancy) fu farw 7fed Awst, 2020 yng nghartref gofal Bryn Seiont Newydd gynt o 14, Rhes Gordon yn 91 mlwydd oed.

Roedd yn wraig gariadus i Richard Emlyn Jones (Dic Post) ac yn fam annwyl i Carys, Anne, Mair, David ac Alun ynghyd â nain a hen nain anwesog. Hefyd, bu'n briod hoff y diweddar Robert Llewelyn Thomas (Robin/ Bob Saer).

Cafodd Nancy ei magu yn Williams Terrace ac yn ferch i Jessie a David Lewis. Roedd yn falch o gael adrodd mai hi oedd un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Pen y Bryn a siaradai'n aml am gyfnod anodd yr Ail Ryfel Byd. Ar ôl gadael Ysgol Pen y Bryn aeth i Ysgol Ramadeg Bethesda ac ymlaen wedyn i weithio mewn swyddi gweinyddol mewn sawl cwmni ym Mangor.

Gweithiodd Nancy fel Llyfrgellydd ym Methesda cyn symud mlaen fel ysgrifenyddes Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd wrth ei bodd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Dyffryn. Bu'n aelod ffyddlon o Gangen Sefydliad y Merched ac yn weithgar gyda Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Bu Capel Bethania yn rhan ganolog o'i bywyd, o gyfnod ei phlentyndod hyd yn ddiweddar.

Roedd ei blynyddoedd olaf yn anodd gyda salwch dementia a diolchwn i gymdogion am eu cymorth a'u gofal drosti.

Oherwydd pryder Covid-19 cynhaliwyd angladd preifat yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 19eg Awst. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dr Huw John Hughes gyda'r trefniadau yng ngofal Stephen Jones.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt. Diolch hefyd am y rhoddion dderbyniwyd tuag at Ymchwil Dementia.

**Eglwys Crist, Glanogwen**

Dyma fis Medi wedi cyrraedd, a'r flwyddyn yn prysur fynd heibio. Gobeithio'n fawr y byddwn yn agos at ail-gychwyn gwasanaethau pan fydd y Llais yn ymddangos, edrychwn ymlaen yn fawr at weld pawb yn dod at ei gilydd unwaith eto.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Morfudd Ashworth yn ddiweddar. Roedd Morfudd yn ffyddlon iawn yn derbyn cymun bob mis tra yn preswylio ym Mhlas Ogwen, ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Cheryl, Sharon a'r teulu yn eu profedigaeth.

Mae'r amlenni rhodd wedi eu dosbarthu bellach, rhowch ganiad os am i ni gasglu rhai sy'n sefyll – bydd y Trysorydd yn falch iawn o'u derbyn. Diolch i'r rhai sydd wedi anfon rhoddion at gynnal mynwent Coetmor – mae'r gwair yn dal i dyfu er gwaetha'r Clo Mawr!

Fel arfer, cadwch yn iach, a chofiwch os oes rhywun yn unig neu am gael sgwrs, mae croeso i chwi roi caniad i Glenys ar 600371 neu Barbara ar 600530. Gobeithiwn weld ein gilydd cyn bo hir.

## Yr Eglwys Unedig

**Gwasanaethau**

'Rydym yn dal i gael ein rhwystro ar hyn o bryd rhag ailagor y Capel, a'r adeiladau sydd ynghlwm wrtho, oherwydd oblygiadau cydymffurfio â rheolau diogelwch yn ystod y coronafeirws. Cyn cael agor ein drysau unawith eto, bydd angen cyflogi glanhawyr proffesiynol, gwneud asesiadau risg, a sicrhau bod yr adeiladau'n ddiogel o safbwynt glanweithdra a chadw pellter cymdeithasol, felly mae tasg enfawr o'n blaenau. Fel swyddogion a blaenoriaid, mae gennym gyfrifoldeb i warchod ein aelodau a'n plant, a'r gymuned yn gyffredinol.

Mae methu â chynnal gwasanaethau wedi peri gofid mawr i ni, ond yn ystod y ddeufis diwethaf 'rydym wedi llwyddo i gynnal gwasanaethau byr ar y ffôn, a chan bod hynny wedi bod yn llwyddiannus dros ben, bwriedir parhau â hwy unwaith y mis hyd nes y cawn ailagor. Cynhelir y gwasanaeth nesaf fore Sul, Medi 20, am 10 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un i ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn – nid oes angen bod yn aelod. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Walter Williams ar 01248 601 167.

**Cofion**

Mae amryw byd o'r aelodau wedi bod yn wael yn ddiweddar, mewn ysbytai, cartrefi gofal ac yn eu cartrefi, ac anfonwn ein dymuniadau cywiraf atynt oll.

**Tŷ Capel**

Gobeithiwn y bydd y gwaith o gyflenwi nwy pibell i'r Tŷ Capel yn dechrau'n fuan, a golyga hyn osod pibell o'r stryd ac ar hyd y llwybr. Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a achosir i'r cyhoedd.

**Dydd Gweddi'r Byd**

Drwy garedigrwydd yr Is-Bwyllgor Cymreig, 'rydym wedi derbyn grant sylweddol ar gyfer prynu sgrîn a thaflunydd at ddefnydd yr eglwys a'r gymuned yn gyffredinol – diolch o galon i'r Is-Bwyllgor.

**Gardd y Capel**

Braf oedd gweld yr ardd yn cael ei defnyddio ar gyfer y Ffair Grefftau a drefnwyd gan Bartneriaeth Ogwen yn ddiweddar, a diolch i'r rhai a fu'n trefnu am eu gwaith.

Yn ddiweddar bu i ni wario cryn dipyn o arian ar osod arwyddion 'Dim Beics' yn yr ardd, gan fod problem wedi bod oherwydd ymddygiad anghymdeithasol gan ambell feiciwr oedd yn amharu ar fwynhad eraill o'r lle tawel hwn. Trist iawn yw gorfod adrodd bod yr arwyddion wedi cael eu malurio a'u tynnu i lawr gan fandaliaid, ac mae'r mater bellach yn nwylo'r heddlu, fydd, gobeithio, yn gallu dwyn achos yn eu herbyn, a'u cosbi.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Nid oedd modd cynnal cyfarfod y gangen yn mis Gorffennaf oherwydd Covid-19, ond cafwyd trafodaethau ar y we trwy ddefnyddio ZOOM gan Blaid Lafur Arfon. Cafwyd adroddiadau rheolaidd am waith Llywodraeth Lafur Cymru e.e. ni fydd modd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcas ar ôl mis Tachwedd a lansiwyd Cronfa Tyfiant Swyddi Cymru. Yn ogystal â hyn, cafwyd cyfle ar y we i gyfrannu at maniffesto Plaid Lafur Prydain ar gyfer yr etholiad cyffredinol yn 2024.




I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Llythyr

**Annwyl gyfeillion,**

Mae cynlluniau ar droed i gynyddu y defnydd o'r gofod awyr yn nhalgylch Maes Awyr Llanbedr, ger Harlech. Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi arian mawr yng nghwmni *Snowdonia Aerospace*, sef y cwmni sydd am weld y Maes Awr yn cael ei ddatblygu i hybu defnydd sifil, adloniadol a masnachol. Y gobaith yw y bydd y cynllun yn dod a 500 o swyddi i'r ardal ac £19 miliwn i'r economi leol. Mewn cyfnod mor anodd a hwn, fe fyddai amryw yn croesawu datblygiad o'r fath.

Ond mae rhywbeth sydd yn ein poeni yn ddirfawr. O graffu ar y datblygiad daw yn amlwg.

1) fod RAF Valley/Y Fali am wneud defnydd helaeth o'r maes awyr gan gynyddu nifer o hediadau rhwng Sir Fôn a Llanbedr a thu hwnt , i cymaint a 50 hediad **y dydd** sydd yn gynnydd mawr ar yr hediadau ar hyn o bryd.
2) Ymysg y cwmniau sydd yn buddsoddi yn y datblygiad yn Llanbedr mae rhai sydd yn rhan o'r diwydiant militaraidd byd eang, cwmniau fel QinetiQ (sydd ynghlwm a datblygu dronau milwrol di-beilot) a BAE Systems.
3) Mae RAF Y Fali yn cynnig adnoddau i hyfforddi peilotiaid awyrennau bomio yr Hawks o wledydd tramor gan gynnwys 30 yn 2019 o Saudi Arabia a chytundeb i hyfforddi mwy yn y dyfodol.

Dyma'r bomio a'r awyrennau sydd tu ôl i'r hyn sydd yn cael ei alw gan y Llys Rhyngwladol yn 'drosedd yn erbyn y ddynoliaeth' yn Yemen.

Gobeithio fod hyn yn ddigon o wybodaeth i argyhoeddi darllenwyr pob papur bro rhwng Môn a Meirionnydd, fod yna gwestiynau y mae'n *rhaid* i ni fel dinasyddion ein bro a'n byd eu gofyn. Ac o'i gofyn i fod yn ddigon egwyddorol i ddweud, petae angen, 'Nid yn ein henw ni.' Y mae Cymdeithas y Cymod drwy'r gangen leol wedi dechrau ymgyrch i fynnu cael gwbod y *gwir i gyd* am y datblygiad hwn. Wnewch chi holi eich cynghorwyr, eich aelod AS yng Ngaerdydd ac yn Llundain ac fel pobl Gwynedd ddangos nad ydym am fod yn dawel o wybod yr ychydig yr ydym yn ei wybod yn barod a chael gwybod y ffeithiau yn llawn e.e. manylu ar y 500 o swyddi honedig a'r 19 biliwn i'r economi leol.

Llawer iawn o ddiolch am y gofod ym mhapur eich bro – un o'n broydd cymharol heddychlon, ond mewn perygl o hyrwyddo lladd a dioddef gwerinoedd eraill yn eu broydd hwythau.

**Pryderi Llwyd Jones, Cricieth 07483 266080, Awel Irene Llanfrothen 07867 790971, Gwyn Williams, Chwilog (Swyddogion y gangen leol o Gymdeithas y Cymod) ac Anna Jane (Cadeirydd Cymru o'r Gymdeithas.)**

---

**Ôl nodyn**

Ar Fedi 1af daeth neges gan Snowdonia Aerospace yn dweud fod y cais i ddatblygu y defnydd o Faes Awyr Llanbedr yn cael ei atal 'ar hyn o bryd'. Nid oes resymau yn cael eu nodi tros yr oedi (ai tybed eu bod yn synhwyro bod arwyddion cryf o wrthwynebiad i'r cynllun?) O oherwydd natur 'tros dro' yr hysbysiad annisgwyl, mae'r llythyr hwn yn parhau yn berthnasol i'n cadw yn effro i ddatblygiadau pellach. A hyd yn oed os na fydd yr RAF yn parhau a'u cynllun rhaid cofio bod cwmni Americanaidd fel Qinetic, un o'r partneriaid y datblygiad, yn gwmni sy'n datblygu ac yn arbrofi dronau (awyrennau di-beilot) rhyfel.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB


Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365
Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523
Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092
Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140
@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE


**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon
**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon
**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

# Pentir

**Diolch**
Dymuna Carys, Rallt Uchaf a'r teulu oll ddiolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd ddangoswyd iddynt ar achlysur marwolaeth mam, nain ac hen nain annwyl. Hefyd, yr rhoddion tuag at Ymchwil Dementia.

Bu farw Ann Elizabeth Thomas (Nancy) gynt o 14, Rhes Gordon, Bethesda yng nghartref gofal Bryn Seiont Newydd ar 7fed Awst.

**Colli, cadw a thrysori enwau lleol**
Yn dilyn erthygl yn y Llais gan Ieuan Wyn parthed newid enwau tai, tynnaf sylw i enghreifftiau o hynny yn y gornel fechan yma o'r dyffryn.

Mae Greenacres, Pinfold Cottage, Bluebell Cottage, Spring Cottage ac Foothills Cottage yma! Y cwbl wedi colli eu henwau Cymraeg gwreiddiol.

Eto, mae enwau Cymraeg tai yr ardal wedi newid ar hyd y blynyddoedd a hynny gan berchnogion newydd. Mae'r enwau hynny wedi ennill eu plwyf erbyn hyn a diddorol fyddai cael gwybod pwy a pham newidiodd y gwreiddiol.

Ar un adeg, Bryn Meddyg oedd enw fferm Niwbwrch, Pentir Isaf oedd y Tai Isaf presennol. Newidiodd Pant Gwyn i Beudy'r Gors a Thyddyn Gogrwn i Tan Rallt.

Yr enw ar dŷger Rhyd-y-Groes yw Caer Afallon ond byddwn yn tybio mai Cae'r Afallau sydd yma'n wreiddiol. Mae sawl bedd ym Mynwent Eglwys Sant Cedol yn dangos hyn ac fel mae newid mewn sillafu yn newid yr enw'n llwyr.

Yn 1837 claddwyd William Jones arferai fyw yn Cae'r Efallen, yn 1854 claddwyd person a drigai yn Cae'r efallen yn y fynwent ac un arall o Cae'r afallen yn 1859. Yn 1903 rhoddwyd y cyfeiriad fel Caer 'fallen ar garreg fedd ac yn 1954 claddwyd William Thomas Jones arferai fyw yn Caerafallon.

O aelwyd arferai ddangos cysylltiad â choed afalau (efallai afalau surion) rydym nawr gydag annedd yn cyfeirio i chwedl y Brenin Arthur!

# Carneddi

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau mawr i Carys, Nia a Niamh, merched Calvin a Mary Davies, gynt o Carneddi ar eu llwyddiant yn ennill graddau mewn colegau yn America eleni. Enillodd Carys radd Doctor mewn Ymchwil Fferyllol tra cafodd Nia radd mewn marchnata a Niamh yn graddio fel athrawes Mathemateg.

Mae'r tair merch ddawnus yn wyresau i Mrs Valmai Davies, 83 Ffordd Carneddi a'r diweddar Arnold. Oherwydd y cyfyngiadau ar deithio yn ystod y Clo Mawr ni chafodd Valmai fynd drosodd i Florida i ddathlu gyda'r teulu, ac yn naturiol iawn roedd hynny'n siom aruthrol i bawb ar y ddwy ochr i Fôr yr Iwerydd.

Da iawn genod a phob dymuniad da iddyn nhw yn eu gyrfa a'u bywydau. Cofion atoch chwithau, Calvin a Mary.




I hysbysebu yn
**Llais Ogwan,**
**Neville Hughes**
600853
(nev_hughes@btinternet.com)

SIOP OGWEN
33 Stryd Fawr, Bethesda
Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!
Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!
Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.
Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).
siop@ogwen.org
01248 208 485

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

# Llythyr

**Annwyl Olygydd**
Deiseb Pwysig ar gyfer achub Coleg Harlech.

Mae Cymru wedi ddioddef o bla y tai haf ers degawdau lawer ac bellach, mae tir ac eiddo yn ein cenedl bach yn cael ei werthu a'i brynu ar gyflymder dychrynllyd fel na welwyd erioed o'r blaen a hynny gan syndicetiau o Loegr yn ogystal ac unigolion, ac os na ellir, hyd yn oed, a llofnodi'r ddeiseb sydd yn y ddolen gyswllt isod i achub Coleg Harlech rhag cael ei ddymchwel i ganiatáu i 'rheibwyr' allu adeiladu tai a fflatiau moethus ar gyfer y cyfoethog hynny sydd am ddianc i fyw o brysurdeb trefi a dinasoedd Lloegr ar y safle, yna, does dim gobaith o achub Cymru rhag ei 'diwedd dyddiau'. Os achubir y coleg, ar y llaw arall, gellir ei ddefnyddio fel coleg i hyfforddi Cymru di-waith mewn pob math o sgiliau bydd eu hangen mewn Cymru wedi Covid-19. Felly, os yn pryderu am y cynnydd yn y pla o dai haf, diweithdra yn Nghymru ynghyd â dyfodol neu, diwedd ein cenedl, llofnodwch y ddeiseb, ac yna pasiwch ymlaen i bawb rydych yn eu adnabod. Mae angen 5000 o lofnodion os yw'r ddeiseb i'w thrafod yn y Senedd, dewch i ni anelu am 50,000 er mwyn mynegi'n glir i ni fod yn ymladd yn ôl o'r diwedd ac achub Coleg Harlech yw'r weithred cyntaf yn y brwydro'n ôl i warchod yr hyn sydd ar ôl o Gymru cyn iddi ddod yn rhan o fap Lloegr am byth.

**Sian Ifan**

# Wil Rich

## Addasiad o gyfweliad a recordiwyd ar dâp gyda Derfel Roberts yn 1974.

**Dyma'r ail bennod o'r cyfweliad a recordiwyd gyda William Richard Davies o'r Gerlan. Mae'r cyfarwydd yn gwybod mai'r cymeriad gwreiddiol a hoffus hwnnw a ysbrydolodd Caradog Prichard i greu'r cymeriad Now, Gwas Gorlan yn ei nofel enwog Un Nos Ola Leuad.**

**Llais Ogwan:** Roeddech chi'n dweud fod y capel a'r Ysgol Sul wedi bod yn ddylanwadau trwm ar eich bywyd chi Wil. Oes gynnoch chi stori am hynny?
**Wil:** Oes tad. Mi fydden ni'r plant yn mynd y selog i'r Ysgol Sul ac mi fyddai'r pregethwr yn dŵad ato' ni weithia ac yn ein holi ni am y defaid a'r ŵyn.

"Pwy ydy'r defaid 'mhlant i?" medda fo.

"Pobol syr," medden ni.

"Pwy ydy'r ŵyn ta blantos?" medda'r gweinidog.

"Ni syr," meddai'r plant.

"Da iawn! Ardderchog! Gwerth chweil!" medda'r dyn.

"Rŵan ta, pwy ydw i'r hen blantos?"

"Maharen syr," medda fi a dyma fi â choblyn o gweir gan fy nhad ar ôl mynd adra, a chael fy ngyrru i fy ngwely.
**Ll.O:** Dach chi'n mynd i'r capel rŵan Wil?
**Wil:** "Na fydda, fydda i ddim yn cofio fod yna un â dweud y gwir wrthoch chi."

Dro arall rhywun yn gofyn i Wil yn ddigon diniwed sut y byddai'n hoffi ei wy. "Efo un arall yn ei ymyl o " oedd yr ateb gan Wil.

Un tro daeth criw o ddringwyr o Loegr i Fethesda a digwydd taro ar Wil yn y stryd. Dyma nhw'n gofyn iddo ba ffordd fyddai orau iddyn nhw ei chymryd tua'r mynydd.


Rhoddodd Wil y cyfarwyddiadau iddyn nhw'n ddigon parchus. Diolchodd y bobl iddo yntau gan gychwyn i ffwrdd am y mynydd.

"Mind for fear you get lost," gwaeddodd Wil ar eu holau.

"Oh, don't worry a bit about that, we've got a map," atebodd y Saeson.

"Yes," meddai Wil,"but remember, it doesn't show mist on the map."

"Welsh idiot, " meddai'r dringwyr cyn cerdded i ffwrdd.



Stori arall oedd honno pan ofynnodd rhywun i Wil beth oedd mwy nag un "Ox." "Oxygen" meddai Wil.

Wrth wrando ar y ddwy stori yna dyna ofyn i Wil, "Sut mae'ch Saesneg chi Wil?"

Wil: Wel mae'n olreit os ca' i bwyso ar y wal 'te."

**LL.O.** Dewch â mwy o straeon am fwyd Wil.
**Wil:** Mi rydw i'n cofio rhywun yn gofyn i mi os oeddwn i'n leicio tatws yn popty. "Nac ydw," medda fi, "Mae'n well gen i'w cael nhw ar blât."

Un tro mi ddaeth Ellis y Plisman i Gwernydd ac roedd o'n digwydd siarad efo fi gan sylwi fod yna lawer o gŵn o gwmpas y lle. "Oes," medda fi "ond mi wn i un peth, mae fy nau gi fi yn saff beth bynnag."

"O", medda fo,"Oes gynnoch chi gŵn felly?"

"Oes," medda fi.

Ymhen rhai dyddia', daeth Ellis y Plisman at y drws gan dd'eud, "wedi dŵad i weld eich dau gi chi ydw i."

"O dowch i mewn," medda fi, "dowch drwodd i fa'ma."

"Lle mae'ch cŵn chi?" meddai'r plisman.

"Dyna nhw yn fanna ar y silff ben tân," atebais inna'. "Roedd o wedi bod yn y Post Offis yn holi os oedd gen i leisans dach chi'n gweld."

**Ll.O.** Fyddwch chi'n leicio peint Wil?"
**Wil:** Bydda'n tad, dau, os câi nhw am ddim.

Ac felly'r gadawson ni Wil Rich. Roedden ni'n dal i chwerthin ymhen dyddiau wedi'r sgwrs ac er mai detholiad o'r straeon sydd wedi eu cyhoeddi uchod, gobeithio eu bod wedi rhoi blas i chi o'r stôr oedd gan Wil i'w dweud.

# gair neu ddau

**John Pritchard**

**LLADRATA**

Wna i ddim ei enwi. Fyddai hynny ddim yn deg. Ond i bob pwrpas mae wedi rhoi caniatâd i mi ei alw'n lleidr. Chwarae teg iddo, mi ddatgelodd ymlaen llaw ei fwriad i ladrata. Ac roedd o'n ddigon cwrtais i ofyn i mi ddeud wrtho lle'r oedd yr hyn yr oedd am ei ddwyn. I goroni'r cwbl, ac o bosibl er mwyn ei gyfiawnhau ei hun, mi awgrymodd y medrwn ofyn mewn erthygl fel hon, 'Pryd mae'n iawn i ddwyn?'

Fedrai'r Deg Gorchymyn ddim bod yn fwy clir: 'Na ladrata'. Go brin felly fod modd cyfiawnhau'r peth: boed ladrata arian neu gar neu lyfr; boed o fanc neu siop neu dŷ. Dyma un o'r egwyddorion sylfaenol y byddai'r mwyafrif ohonom yn ei harddel. Wedi'r cwbl, does neb yn hoffi meddwl am rywun yn lladrata'i eiddo. Pa hawl sydd gan neb arall i gymryd yr hyn sy' pia fi?

Ond dyma fy ffrind yn dweud ei fod am ladrata oddi wrthyf, ac yn cydnabod yr un pryd nad dyma'r tro cyntaf iddo wneud y fath beth. 'Dwi wedi gwneud hynny lawer o weithiau o'r blaen,' meddai yn y neges a anfonodd ataf. Ac wrth awgrymu'r testun ar gyfer erthygl roedd o'n awgrymu hefyd nad yw'n gwneud dim o'i le. 'Pryd mae'n iawn i ddwyn?' Ateb fy ffrind fyddai, pan ydych yn dwyn pregeth!

Nid ei fod yn lladrata mewn gwirionedd. Wedi'r cwbl, mae pob pregeth gwerth ei halen wedi ei seilio ar Y Beibl, ac ni all yr un pregethwr gwerth ei halen honni mai ei eiddo ei hun yw'r neges y mae'n ei thraddodi. Cyhoeddi gwirioneddau Duw yn unig a wna, ac y mae'r gwirioneddau hynny ar gael i bwy bynnag sy'n eu ceisio rhwng cloriau'r ddau Destament. Ac os digwydd i un gyflwyno'r gwirioneddau hynny mewn ffordd sy'n apelio at rywun arall, pa ots os bydd y rhywun arall hwnnw'n benthyca neu ladrata'r darlun neu'r syniad neu'r dull ymadrodd? Yn arbennig os yw, fel fy ffrind, yn ddigon cwrtais i ddweud ei fod am wneud hynny gan gyfeirio at yr union erthygl yr oedd yn awyddus i wneud defnydd ohoni.

Pryd, felly, mae'n iawn i ddwyn? Mi fentraf gytuno ag o a dweud 'pan fo'r frawddeg neu'r darlun neu'r syniad yn ein galluogi i gyflwyno'r Efengyl yn fwy effeithiol'. Mae ffyddlondeb i'r Efengyl yn bwysicach na gwreiddioldeb ymadrodd; ac felly nid syndod fod Cristnogion ar hyd yr oesoedd wedi benthyca oddi wrth ei gilydd yn eu hymdrech i gyhoeddi Efengyl Crist. Gallwch fentro p'run bynnag fod y goreuon yn ddigon gonest i gydnabod nad nhw bia pob un syniad a phob un gair, a'u bod felly'n ddigon parod i ategu geiriau Paul. 'A minnau, pan ddeuthum atoch, gyfeillion, ni ddeuthum fel un yn rhagori mewn huodledd neu ddoethineb, wrth gyhoeddi i chwi ddirgelion Duw. Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio' (1 Corinthiaid 2:1–2).

# Age Cymru Gwynedd a Môn yn parhau i gefnogi'r gymuned, diolch i grant o £81,500 gan Y Loteri Genedlaethol

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn helpu eu cymunedau lleol yn ardal Gogledd Orllewin Cymru, diolch i chwaraewyr Y Loteri Genedlaethol. Derbyniodd yr elusen £81,500 gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ariannu project fydd yn cefnogi'r henoed a'r rhai bregus yn y gymuned wrth iddynt gysgodi rhag COVID-19, a hefyd yn y dyfodol pan fydd cyfyngiadau yn cael eu llacio.

Dywedodd Eleri Lloyd Jones, Prif Swyddog yn Age Cymru Gwynedd a Môn: "Bydd y cymorth gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ein galluogi i barhau i fod yn rhagweithiol yn ein cymunedau gan ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn cyfnod lle mae lefelau unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn uwch oherwydd COVID-19. Byddwn yn darparu a chludo prydau poeth a hanfodion i gartrefi pobl, gan gadw mewn cysylltiad ac ymgymryd â galwadau ffôn rheolaidd, yn ogystal â darparu cyngor a gwybodaeth lle bo angen. Rydym yn hynod falch o dderbyn yr arian yma mewn cyfnod ansicr iawn yn ariannol i elusennau lleol."

Yn ôl Sylvia Targett, cydlynydd y galwadau cadw mewn cysylltiad: "Mae'r galwadau ffôn yn gysur mawr i lawer o bobl sy'n hunanynysu mewn cyfnod ansicr iawn. Rydym eisoes yn gweld yr effaith bositif mae'r galwadau yn ei gael ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac yn ymfalchïo yn y negeseuon o ddiolch a gwerthfawrogiad rydym yn eu derbyn gan ddefnyddwyr a'u teuluoedd neu ofalwyr."

Dywedodd Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Ngwynedd: "Dros y cyfnod heriol hwn, mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn enghraifft wych o sut mae elusennau yn gweithio'n galed i gefnogi eu cymunedau ac yn rhoi cymorth i'r rheini sydd ei angen fwyaf. Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am ei gwneud yn bosibl i ariannu projectau fel hyn sy'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl yng Ngogledd-Orllewin Cymru."

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn blaenoriaethu ceisiadau am grant ar gyfer gweithgaredd cymunedol sy'n gysylltiedig â COVID-19. I ddarganfod mwy, ewch i www.cronfagymunedolylg.org.uk/cymru

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Diolch**

Dymuna Ann, Siôn a Meical a theulu'r diweddar Helen Williams (Anti Helen) 4, Penrhiw, Mynydd Llandegai ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl. Gwerthfawrogir pob neges, a'r cyfraniadau tuag at Ward Cybi Ysbyty Gwynedd ac Adran Therapi Lleferydd Ysbyty Eryri.

# Hedbangars Byd Natur

## Gan Rob Evans



Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Sir David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddyliwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai egsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangar byd adar yw cnocellau'r coed. Mae'n aderyn 'high impact' go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st ti, mae'r diwrnod wedi bod braidd yn hir a'r gwaith yn 'boring' wrth gwrs, neis bod adra!"

Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o 'shock absorber' felly does dim rhaid i'w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!

Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnocellau'r coed ar y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n llun i'w werthfawrogi.

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau. Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fydda i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

# CHWILAIR

## Actorion a Chantorion Enwog

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | S | E | N | O | J | A | T | E | Z | E | N | I | R | E | H | T | A | C | S |
| V | S | A | M | O | H | T | L | E | H | C | A | R | S | H | E | I | M | I | G |
| V | H | H | T | I | F | F | I | R | G | H | G | U | H | M | D | W | A | H | U |
| A | N | T | H | O | N | Y | H | O | P | K | I | N | S | T | Z | N | M | X | V |
| **Y** | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | O | F | P | R | S | P | Y |
| **E** | N | Q | Z | G | R | H | C | U | M | W | N | M | O | H | Y | N | R | I | A |
| **S** | S | O | Z | U | T | F | D | X | U | P | J | W | I | R | I | H | C | Q | H |
| **S** | W | E | T | H | O | Y | E | E | G | O | E | L | O | K | M | D | H | E | P |
| **A** | T | T | C | R | B | B | C | U | N | U | L | J | N | P | D | L | T | M | I |
| **B** | L | V | V | D | U | C | B | E | B | I | F | E | R | U | F | O | G | J | V |
| **Y** | I | E | I | R | R | B | S | X | P | I | J | M | F | H | T | T | O | S | K |
| **L** | O | P | F | W | R | C | D | S | M | N | K | F | C | B | O | R | C | X | V |
| **R** | R | Y | H | R | S | T | M | R | I | R | U | E | F | Y | J | D | Z | H | B |
| **I** | C | W | O | S | E | C | R | R | A | R | A | I | X | N | I | L | X | J | J |
| **H** | M | B | W | T | E | T | E | X | G | H | M | D | X | K | F | U | P | C | Q |
| **S** | Y | O | I | L | F | H | N | N | E | R | C | Z | Q | R | O | C | T | D | G |
| W | S | L | Z | E | T | B | A | Y | E | A | J | I | K | J | C | L | N | L | R |
| V | O | G | J | A | P | O | W | P | R | G | S | O | R | W | J | J | Q | U | L |
| F | S | V | K | T | I | X | E | U | G | B | H | S | L | Z | E | A | F | X | I |

Yn y chwilair mis yma mae enw UNARDDEG O ACTORION A CHANTORION ENWOG CYMRAEG i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

## Lliwiwch fi!



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Da oedd gweld y caeau chwarae a'r dafarn yn ail agor. Da hefyd oedd gweld Janet Scott yn dod yn ôl i weithio yn siop Rachub yn achlysurol wedi cyfnod o salwch.

Yn anffodus, yn ystod storm cafodd polyn B.T. ei daro gan fellten, ac felly doedd dim teleffon, teledu ac yn y blaen gan rhai o'r trigolion am gyfnod.

Yn ogystal â siopa dros gymdogion, aeth Corrina Williams (Ffordd Llanllechid) i fyny mynydd gwahanol bob dydd am 30 diwrnod!

Siomedig oedd gweld bod rhywun wedi parcio o flaen y fainc ym mhen uchaf Bryn Pistyll, er bod llinellau melyn yno a lle i barcio is i lawr y ffordd.

Yn ystod mis Awst gwelwyd pobl yn hel mwyar duon, ond gobeithio y bydd y plant yn gadael y cnau nes eu bod nhw'n aeddfed.

Aeth rhai o'r plant yn ôl i'r ysgol am dair wythnos yn mis Gorffennaf, ac yn ystod gwyliau'r Haf roedd rhai ohonynt yn chwarae ar fyrddau hofer a chertiau hofer.

Daeth cyfnod cysgodi pobl efo salwch i ben ym mis Awst ac felly cânt fynd i siopa dros eu hunain os y medrant.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Megan Tomos, Sychnant a'i theulu wedi marwolaeth ei brawd annwyl (Y Parchedig John Lewis Jones) a fyddai'n dod i Gapel Carmel i bregethu'n rheolaidd.

Gobeithio bod Denise Roberts a Gwilym Williams y ddau yn byw ar Ffordd Llanllechid, yn gwella wedi iddynt gael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar Denis Vaughan Griffith, Bron Bethel, Rachub ddiolch o galon am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof amdano.

Dosbarthwyd yr arian i Feddygfa'r Hen Orsaf a Thîm Achub Dyffryn Ogwen. Diolch i chi i gyd.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau i Richard Arwyn Williams, bachgen wedi ei fagu yn ardal Llanllechid, sydd wedi graddio yn Bensaer. Mae Arwyn yn fab i Richard a Denise Williams, Ffordd Llanllechid ac yn ŵyr i Augusta a'r diweddar Ron Williams, Bron Arfon.

Cafodd Arwyn ei addysg cynnar yn Ysgol Y Garnedd, ac yna yn Ysgol Dyffryn Ogwen hyd nes iddo gychwyn ar Gwrs Celf a Dylunio yng Ngholeg Menai, Bangor. Llwyddiant yn y fan honno roddodd y fraint iddo ymuno gyda Phrifysgol Huddersfield i gychwyn ar gwrs Pensaernïaeth dros gyfnod o 7 mlynedd. Dwy flynedd ymlaen, wedi graddio cam cyntaf o dri, derbyniodd wahoddiad gan gwmni pensaernïaeth yn Llundain, lle cyfarfu â Sophie Arnoux, sydd bellach yn wraig iddo. Yn dilyn dwy flynedd o brofiad gwaith fe ymunodd â Phrifysgol Canterbury. Dymunwn bob lwc a llwyddiant iddo i'r dyfodol ym myd Pensaernïaeth, ac yn enwedig iddynt fel teulu gyda'u mab Milo bach.

Y cam nesaf fydd gwahoddiad ar gyfer aelodaeth gyda RIBA; "Royal Institute of British Architects". Llongyfarchiadau felly i un o fechgyn y Dyffryn. Mae'r teulu oll yn falch iawn ohonot ti Arwyn!

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid**

Yn anffodus, oherwydd y pryderon am effeithiau'r Covid 19, ni fydd y Clwb Hanes yn ail gychwyn ym mis Medi. Ni fydd yn bosib cynnal cyfarfod rhwng rwan a'r Nadolig, ond bwriedir ail-edrych ar y sefyllfa yn y flwyddyn newydd. Gobeithio y bydd pethau wedi gwella erbyn hynny! Cofion cynnes at holl aelodau'r Clwb!

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -


123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106
*Porthaethwy* (01248) 719517
*Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616
*Pwllheli* (01758) 703000




# Yn yr Ardd



**Yn yr ardd flodau**

Daliwch ati i fwydo'r blodau gan gynnwys y rhai yn y basgedi.

Gallwch blannu hyacinth ac amaryllis ar gyfer y Nadolig.

Plannwch fylbiau saffrwm a chennin Pedr. Mae'r hydref yn amser da i blannu coed a llwyni pan fo ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd.

Ewch o gwmpas i dorri'r blodau sydd wedi gwywo, fe gewch gnwd o flodau newydd yn eu lle.

**Yn yr ardd lysiau**

Os oes gormod o gnwd, dyma'r amser i'w cadw, eu piclo, gwneud jamiau, eu rhewi a'u storio. Rhowch gynnig ar ryseitiau newydd.

Gallwch dorri blaendyfiant y tomatos rŵan.

Os daw 'llaeth' allan o'r ffa melyn, mae'n barod i'w fwyta.

Os oes ôl malltod (blight) ar y tatws, torrwch y dail rhyw 3 wythnos cyn eu codi.

Gadewch y tatws i sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw – ond dim ond y tatws iach - mewn sachau wedi iddyn nhw sychu'n dda.

Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had.

Peidiwch â chodi pys a ffa o'r ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi nitrogen i'r pridd.

Rhowch ychydig o fintys a phersli mewn potyn ar gyfer y gegin dros y gaeaf.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

**Cyffredinol**

Tacluswch y gwely mefus rhag elfennau niweidiol.

Taflwch unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru.

Dylech ddyfrio'r tŷgwydr yn y bore; mae botrytis yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau.

Gellir hau hadau lawnt ym mis Medi. Gallwch hefyd fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Ymddangosodd yr erthygl hon gyntaf yn Llais Ogwan Chwefror 1975 heb enw wrthi ond fel y nodwyd o'r blaen, credir mai'r awdur oedd y diweddar Caeron Roberts, Tregarth.

**Cychwyn y côr**

Yn ystod y tridegau roedd bri mawr ar eisteddfodau mewn gwahanol gapelau ym Methesda a'r cylch a chystadlu brwd rhwng partïon neu gorau gwahanol bonciau yn Chwarel y Penrhyn. Yn 1934 bu cystadleuaeth felly yng nghapel Llanllechid, ac yn ystod ei feirniadaeth dywedodd y beirniad ei bod yn gywilydd o beth na fuasai'r gwahanol gorau oedd yn cystadlu yn dod at ei gilydd i ffurfio un côr mawr. Gweithredwyd ar yr awgrym ac yn nechrau 1935 daeth Côr Meibion y Penrhyn i fodolaeth.

**Yr Aelodau**

Chwarelwyr oedd yr aelodau i gyd ar y dechrau ond erbyn heddiw (*1975 cofier*) nid oes ond pedwar chwarelwr yn y Côr. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw'r dirwasgiad sydd wedi bod yn y chwarel ac yn awr daw'r aelodau o amryw o alwedigaethau eraill sef; athrawon, adeiladydd, swyddog llywodraeth leol, ffarmwr, gweithiwr ffatri ac felly ymlaen. Roedd bron yr oll o'r aelodau yn byw ym Methesda a'r cylch yr adeg honno ond yn awr deuant o lawer lle y tu allan i'r cylch, sef Aber, Llanfairfechan, Deiniolen, Carmel, Bangor a hyd yn oed o Lithfaen. Mae pum aelod o'r côr gwreiddiol yn dal gyda ni, sef Hugh J. Owen, Bangor; Gwilym Jones, Tregarth; Idwal Griffith, Mynydd Llandygai; L Hughes, Bethesda ac Alun Williams, Rhiwlas, y pump wedi dangos sêl a ffyddlondeb am ddeugain mlynedd.

**Arweinyddion**

Yr arweinydd cyntaf oedd y diweddar Mr David Jones, Rachub a phenderfynwyd cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1935. Enillwyd y wobr gyntaf a dyna ddechrau gwych i'r côr. Yn ystod y cyfnod hwn daeth y cerddor adnabyddus Mrs Ceridwen Lloyd Davies i ddysgu ac ymarfer y côr ac yn feistres galed iawn meddai'r bechgyn. Cymaint oedd y brwdfrydedd fel bod rhestr hir o enwau yn disgwyl i ymuno â'r côr ac yn gorfod disgwyl am flwyddyn neu ragor cyn cael gwahoddiad - yna prawf llym cyn eu cadarnhau i ymuno.

Ymddiswyddodd Mr David Jones yn 1938 a dewiswyd y diweddar Mr Ffrancon Thomas, cyfeilydd y côr ar y pryd yn olynydd iddo. Bu llwyddiant anghyffredin ar waith y côr o dan ei arweinyddiaeth hir a dyma rai o'i brif fuddugoliaethau.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith yn olynol. Bae Colwyn 1947; Penybont ar Ogwr 1948; Dolgellau 1949.**

- **Eisteddfod Storfa Lewis's Lerpwl bedair gwaith gyda gwobr o £100 a chwpan arian.**
- **Eisteddfod Butlin's Pwllheli bum gwaith gyda gwobr o £100 a chwpan arian.**
- **Eisteddfod Môn chwe gwaith yn olynol**
- **Eisteddfod Dyffryn Conwy chwe gwaith yn olynol**

Wrth gwrs, roedd y côr yn colli ambell dro!



*Ffrancon Thomas a T. Gwynn Jones, gyda'r côr yn 1955*



# Cymeriadau'r Côr

**Athro Ymarfer Corff wedi ymddeol ydy John Outram ac mae'n unawdydd gyda'r côr ers rhai blynyddoedd**

1. **Enw** John Douglas Outram.
2. **Oed** 72
3. **Gwaith** Athro Ymarfer Corff yn Ysgol Friars wedi ymddeol.
4. **Byw** Mewn tyddyn yn Star, Ynys Môn.
5. **Be wyt ti'n ei fwynhau?** Dwi'n mwynhau gweithio'n galed a chanu yn amlwg ond yn cael pleser mawr o fod yn rhan o dîm a'r hwyl o fod mewn cwmni
6. **Ers faint wyt ti'n aelod o Gôr y Penrhyn?** Ers dros 30 mlynedd.
7. **Pa lais wyt ti?** Bariton.
8. **Pam ymuno â Chôr y Penrhyn?** Dwi wedi mwynhau canu erioed a phan wnes i orffen gwneud chwaraeon roedd ymuno â Chôr Penrhyn yn benderfyniad hawdd.



9. **Dy hoff gân yn rhaglen y côr?** *La Vergine Dell Angeli* (Verdi) oedd y gân gyntaf a ddysgais gyda'r côr ac roedd y gantores wych, Mary Lloyd Davies yn ei chanu gyda ni mewn cyngerdd.
10. **Pwy ydy dy hoff ganwr neu gantores?** Placido Domingo.
11. **Be' ydy dy farn di am ganu pop?** Rôn i wrth fy modd efo caneuon pop y 60au yn enwedig recordiau Tamla Motown.
12. **Oes gen ti atgof am daith neu ymweliad gyda'r côr**? - Y trip i Glastonbury sy'n aros yn y cof.
13. **Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n mwynhau nofio'n rheolaidd ac edrych ar ôl y ceffylau, gwaith mecanyddol ac unrhyw beth yn ymwneud â gwaith adeiladu.
14. **Oes yna unrhyw beth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Does dim angen newid dim. Mae Côr y Penrhyn yn boblogaidd iawn mewn cyngherddau ac felly y cyfan y dylen ni ei wneud ydy parhau i gynnig adloniant i bobl.

# Enwau Dyffryn Ogwen 3 (Ch I G)

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r ardal wrth fynd ymlaen).

**CH**
Chwarel Goch, chwarel efo pridd/ carreg goch
**D/ Dd**
Ddôl - y tir yn nhro'r afon
Dinas - y gaer, y tir sy'n perthyn i'r gaer
Dolawen - y tir dymunol yn nhro'r afon
Dolhelyg - tir yn nhro'r afon lle mae nifer o goed helyg yn tyfu
**F/ FF**
Fedw - coed bedw
Ffridd - porfa arw, wael, fynyddig, tir rhwng tir fferm a thir gwyllt y mynydd
Ffridd y Deon - ffridd yn eiddo i ddeon yr Eglwys Gadeiriol, neu gyda'i rent yn mynd i'r deon
Ffrydlas - afon fechan las ei lliw/ afon y ffridd las
**G**
Garneddwen - y garnedd o gerrig golau
Garth Uchaf - cefnen, tir uchel
Gelli - coedwig fechan
Gelli Mynach - coedwig fechan yn eiddo i'r mynach/ gydag unrhyw rent yn rhodd i gynnal mynachod
Gerlan - tir yn disgyn yn weddol serth at afon
Gilfach - encil, cornel gysgodol
Glanrafon - (Ffrydlas), Glanyrafon, (Ogwen) Glanafon (Ogwen) ar lan unrhyw afon
Glan Llugwy - ar lan yr afon Llugwy
Glan y Môr - fferm ar lan y môr
Gwaun Gwiail - tir gwael gwlyb ble mae helyg yn tyfu
Gweirglodd - tir wedi ei gau i dyfu gwair
Hir - ystyr amlwg
Needham - gweirglodd yn eiddo i ddyn o'r enw Needham
y Wern - gweirglodd yn rhan o fferm Wern, neu'n rhan o wern
Gwernydd - tiroedd gwael gwlyb
Gwern y Gof - tiroedd gwlyb y gofaint
Gwern Saeson Fawr - tir gwlyb, gwael yn perthyn i:

1. Saeson
2. rhai oedd yn deall Saesneg
3. rhai oedd wedi bod yn Lloegr

# Nyth y Gân

**'THE FIGHTING TEMERAIRE'**
(paentiad J.M.W. Turner)

Adref ar ôl y brwydro ar y dŵr
Y daw i'w diweddglo;
Yn llesg yn nydd ei llusgo
Daw o draw yr olaf dro.



**ENGLYN**
Yn gywrain rhed y geiriau o'u gosod
Hwy'n gyson yn gyplau;
O lunio'r fath ddarluniau,
Yn y cof fel clo mae'n cau.

**GAEAFNOS YN Y MYNYDD**
Y rhewynt yn yr awel, y tir brwnt
Ar y brig mor uchel;
I ddegau nid yw'n ddiogel,
Ofn a geir mewn cuddfan gêl.

**Y DELYN**
Cerdd fêl yn dawel o'r delyn a ddeil
Feddyliau mor sydyn,
A daw'n bêr o'r offeryn
Nodau tôn y tannau tyn.

**FFYNNON TAN-Y-BRYN**
Yn farw mae'r hen arferion o gario'r
Dŵr gorau o'r ffynnon;
O'i gael i'r hen drigolion,
Golud o hyd ddôi o hon.

**HARDDWCH Y MYNYDD**
Ar lethrau moelion, melyn
Sŵn afon ddaw o bell,
Yn rhedeg yn y dyffryn
O'i chychwyn o sawl cell.

Ein meddwl dynnir yno
I wrando arni hi
Â'i dyfroedd llyfn heb flino
Yn llifo'n dawel gri.

Mor hardd yw cwm a mynydd,
Mor unig yw 'mhob man,
Ac yno bref a glywir
Yn glir, a gwna ei rhan.

Rhyw le sy'n hudo ydyw
Boed aeaf llwm neu haf,
Yn rhannu'r hyn sydd ganddo
O'i eiddo'n hynod braf.

Mae'n lle i'w gofio'n gyfan
A hynny drwy ein hoes;
Ardal yr hardd lystyfiant,
Ei mwyniant inni roes.

**Dafydd Morris**

**FFÁRWEL HAF**
Bonheddig yw'r planhigyn, – â'r llygad
Mor lliwgar ar goesyn
Yn rhyfeddod o flodyn
Yn hwyr haf. Digymar hyn.



**LLONYDDWCH**
Gwelaf yn nhesni'r hafddydd – ymylon
Tawel, moel y mynydd;
Hithau'r galon yn llonydd
A di-fraw ar ddistaw ddydd.

**FY NAEARGI**
Anwylyn yn fy nwylo – yw Bleddyn
Y blaidd brwd ei groeso;
Yn fwynaidd ei nwyf heno,
Mae'n nef yn ei gwmni o.

**YR WYLAN**
Dyma hi uwch tywod mân – â heulwen
Ar heli a morlan;
Deheuig, felynbig lân
Arwres y dŵr arian.

**CARIAD DUW**
Caredig waredigaeth – i ddynion
A ddaw'n waredigaeth;
Yn rhyddion o'u cyffion caeth,
Yn Nuw y mae'u cwmnïaeth.

**NIWL AR FOELYCI**
Rhimyn o fynydd unig, – a niwlen
Ar ei ael annelwig
Yn gaddug mor osgeiddig,
Ddi-frys yn cyrraedd ei frig.

**Goronwy Wyn Owen**

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

## Cymdeithas dda – 1

Yn ystod y cyfnod diweddar hwn pan fo pandemig y feirws yn crwydro ledled y byd ac yn lladd pobl o bob lliw a llun yn ddiwahân, a ninnau'n hunanysu a phryderu ac ofni, mae un peth wedi dod yn amlwg, sef ein bod ni Gymry, beth bynnag, wedi dysgu cymdeithasu unwaith eto. Wrth grwydro yma ac acw ar droed, yn lle gwibio yma a thraw yn y car, down ar draws pobl nad ydym wedi torri gair efo nhw ers tro byd, na hyd yn oed erioed, efallai. Ac wedi torri'r oer efo 'Su'ma'i?' neu 'Su'dach chi? ac, yn ôl traddodiad, gwneud sylw neu ddau wedyn am y tywydd, yna fe all sgwrs fer (neu hwy, o bosib) ddatblygu i fod yn berthynas sy'n dod â'n cymdeithas yn ôl at ei gilydd unwaith eto.

A dyna a wnaeth i mi feddwl, pan oeddwn yn mynd am dro un diwrnod, am y gymdeithas y magwyd fi'n rhan ohoni yn nhreflan Braichmelyn – cymdeithas y 'Pum C' oedd hi, mewn gwirionedd: clòs, cartrefol, caredig, cyfeillgar, cymwynasgar – lle'r oedd pawb yn nabod pawb arall ac ar delerau da iawn, drwodd a thro, efo'i gilydd. Roedd y rhan fwyaf o bell ffordd yn Gymry Cymraeg cwbl naturiol, ac estroniaid yn bethau digon prin yn ein plith. Wrth gwrs, prysuraf i nodi bod nifer o lefydd eraill yn Nyffryn Ogwen, ac mewn mannau eraill, a oedd yr un fath â Braichmelyn a chyda nodweddion tebyg.

Chwarelwyr a'u teuluoedd, gan mwyaf, oedd trigolion yr ardal, yn byw mewn tai llofft-a-siambar a chofiaf un teulu, ryw dri drws o 'nghartref i, lle'r oedd deuddeg o blant a'u rhieni yn gallu gwasgu i mewn bob nos i ddwy lofft, tua saith troedfedd o led ac oddeutu deg troedfedd o hyd!

Roedd tlodi yn nodwedd amlwg yn ein cymdogaeth – ond pawb, fwy neu lai, yn yr un cwch â'i gilydd – gydag ychydig iawn eithriadau. A dw i'n cofio nifer o drigolion yr ardal – ac roedd 'na sawl 'cymeriad' diddorol iawn yn eu plith a rhai o'r straeon cofiadwy ynglŷn â'r rheini ar gof hyd heddiw.

Ar un adeg, roedd rhyw dri becws yn yr ardal, er na chofiaf ond adeilad yr hen fecws wrth ymyl Siop Edward Jones (ac Edward Llewelyn Jones ar ei ôl) ym Mhontŵr – lle nad oes ond gwagle heddiw. Nac anghofiwn chwaith Siop Mrs Mary Johnson a siop fach Mrs Mary Roberts, Llys Hedd. Rhaid ychwanegu nad oedd na chapel nac eglwys na thafarn yn y fro.

Ond pwysicach na dim i ni blant oedd ein cyfeillion bore oes; yn eu plith, cofiaf Phillip, Keith Llechid, Keith Williams, John a Tom Dickens, Cyril, a Jack (y soniais amdano rai misoedd yn ôl yn y golofn hon). Symudodd rhieni John a Tom i Fanceinion ond, rywsut neu'i gilydd, dihangodd Tom oddi yno yn ôl i Fethesda ac wedi chwilio dyfal amdano, daeth yr heddlu o hyd iddo ym mro ei febyd. Eglurodd Tom iddyn nhw pam yr oedd wedi ffoi o Fanceinion: 'The birds don't sing in Manchester'!

Mwy y mis nesaf.

# Ailagor Canolfan Plas Ffrancon - Croeso Nôl!

Mae disgwyl i Ganolfan Byw'n Iach Plas Ffrancon ail-agor erbyn 21 Medi 2020.

Diogelwch cwsmeriaid a staff yw'r flaenoriaeth uchaf ac mae gwaith caled wedi ei gynnal i gyflwyno newidiadau i'r adeilad a trefniadau a hyfforddi gweithwyr er mwyn i bobl gael cyfle i ymarfer a chymryd rhan mewn amgylchedd diogel.

Agorodd Canolfannau Arfon, Penllyn a Glaslyn (gwasanaethau sych yn unig) ar 21 Awst 2020, bydd y Pyllau Nofio yn Arfon a Glaslyn yn agor i'r cyhoedd o 21 Medi ymlaen. Y bwriad yw agor canolfan Byw'n Iach Bangor hefyd erbyn 21 Medi 2020.

Meddai Amanda Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach:

"Rydym yn deall fod nifer fawr ohonoch chi yn awyddus iawn i weld mwy o wasanaethau'n cael eu cynnig . Dy ni'n gweithio'n galed iawn i ganiatáu i hynny digwydd.

"Mi fydd mwy o wybodaeth am bethau fel nofio am ddim, sesiynau hyfforddi personol, sesiynau hyfforddi plant a gwersi nofio'n cael eu rhyddhau dros yr wythnosau nesaf."

"Ein blaenoriaeth ydi cynnig y gwasanaethau hynny y medrwn ni tra'n cadw defnyddwyr y canolfannau a staff yn ddiogel.

"Mi fydd newidiadau anorfod o ran sut fyddwch chi'n defnyddio'r canolfannau er mwyn diogelu cwsmeriaid a staff.

"Mae gwybodaeth fanwl ar ein gwefan (https://www.bywniach.cymru/) o ran ein trefniadau Covid, sut fydd y canolfannau'n gweithio a pha wasanaethau fydd ar gael ym mhob canolfan."

Dyma grynodeb o rai o'r prif newidiadau:

Mi fydd angen archebu lle o flaen llaw ar gyfer pob gweithgaredd.

Mi fydd angen i bob cwsmer ddatgan eu bod yn holliach a ddim wedi cynghori i ynysu cyn ymweld.

Mi fydd y nifer o bobl sydd yn medru cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau wedi cyfyngu i sicrhau pellter cymdeithasol e.e. dosbarthiadau ffitrwydd llai, llai o bobl yn yr ystafell ffitrwydd ar unwaith.

Mi fydd defnydd cyfyngedig iawn o ystafelloedd newid, felly bydd angen cyrraedd wedi newid ar gyfer eich gweithgaredd. Mi fydd darpariaeth ar gyfer pobl anabl.

Mi fydd gorsafoedd glanweithdra newydd wedi lleoli o gwmpas pob adeilad

Mi fydd offer a sesiynau wedi symud i leoliad newydd mewn sawl canolfan i greu mwy o le e.e. defnydd o neuaddau chwaraeon ar gyfer ffitrwydd.

Mi fydd edrychiad y canolfannau wedi newid wrth gyflwyno sgriniau ar dderbynfeydd, arwyddion newydd trwy bob canolfan a bydd rhai ardaloedd ac offer allan o ddefnydd e.e. ffynhonnau dŵr a pheiriannau gwerthu bwyd a diod.

Bydd staff yn goruchwylio i sicrhau fod pawb yn deall y rheolau newydd ac yn cadw atynt.

Os ydych eisoes yn aelod Byw'n Iach ac yn dymuno ail-gychwyn defnyddio canolfannau, mi fydd angen cofrestru i ddad-rewi eich aelodaeth. Mae manylion ar y wefan am sut i wneud hynny.

Os na fyddwch chi'n teimlo'n barod i ddychwelyd ar hyn o bryd, mi fydd eich pecyn yn parhau wedi rhewi am y tro. Does dim angen i chi wneud dim byd. Cofiwch fod modd i chi ymuno yn sesiynau ffitrwydd ar-lein trwy Zoom yn rhad ac am ddim o'ch cartref yn y cyfamser. Mae'r sesiynau yma'n boblogaidd iawn ac mae amrywiaeth o sesiynau ar gael.

Mae manylion llawn am y trefniadau ail-agor ar gael ar wefan Byw'n Iach: https://www.bywniach.cymru/ - os oes gennych chi unrhyw gwestiynau mae croeso i chi ffonio Canolfan Plas Ffrancon am sgwrs, neu gysylltu efo ar cyswllt@bywniach.cymru

# Pieter J. Hayden-Thomas

## Gan Andre Lomozik

Wrth gofnodi cerrig beddau mynwent gyhoeddus Coetmor, i Gymdeithas Teuluoedd Gwynedd yn ddiweddar, dois ar draws carreg fedd Margaret Thomas, gyda'r arysgrif yma arni. "*Yma y gorphwys Margaret anwyl briod R.H. Thomas, Caerberllan, Bethesda, yr hon a hunodd yn yr Iesu, Mawrth 12fed 1902, yn 48 mlwydd oed. Eithr nid y peth yr ydwyf fi yn ei ewyllysio, ond y peth yr ydwyt Ti. Also in loving memory of Major P. J. Hayden-Thomas A.F.C. South African Air Force. Killed June 16, 1944. Buried at Haycombe cemetery, Bath.*"

Dyma ddechrau meddwl beth oedd ei gysylltiad â Bethesda, a dyma dechrau ymchwilio amdano ar wefan y 'Commonwealth War Grave Commision' a dyma beth ddarganfyddais.

"*Pieter J. Hayden-Thomas, Service Number P/102652V, Died 16/6/1944 aged 27, son of William D. Hayden-Thomas & Frances E. Hayden-Thomas, husband of Sylvia Hayden-Thomas, of Sydenham, Johannesburg Transval South Africa.*"

Roedd yn amlwg fod yna gysylltiad rhwng Pieter J. Hayden-Thomas â Bethesda, ond sut a phaham roedd yn dod o Dde Affrica. Dechreuais drwy ymchwilio cyfrifiad 1891 am hanes y teulu a dyma ddod ar eu traws yn byw yn rhif 4 Caerberllan. Roedd Richard Thomas, y tad yn 37 oed, ei wraig Margaret yn 36, yna merch o'r enw Catherine yn 11 oed, a dau o feibion, Richard S. Thomas yn 7 oed a'r ieuengaf, William D. Thomas yn 3 oed. Yng Nghyfrifiad 1901 roedd y teulu dal i fyw yn rhif 4 Caerberllan, ond oherwydd y chwalfa ynglŷn â Streic Fawr Chwarel y Penrhyn 1900-03 nid oedd Richard Thomas gartref ar ddydd y cyfrifiad. Cefais hyd iddo yn aros mewn tŷyn Sunderland ac yn disgrifio ei hun fel 'commercial traveller'. 'Roedd Catherine, y ferch, hithau i ffwrdd o gartref, ac yn lletya yn Llandinorwig, ac yn gweithio fel 'draper's assistant'. Mewn llai na blwyddyn i'r cyfrifiad bu Margaret, y fam, farw, a dyna oedd y garreg bedd yr oeddwn wedi ei weld ym mynwent Coetmor.

Gwelais yr adroddiad yma am ei marwolaeth ym mhapur newydd y Gwalia, Mawrth 18fed 1902, (tudalen 8). *Marwolaeth a chladdedigaeth Mrs Margaret Thomas, Caerberllan, ac Anwyl Briod Mr R. Hayden Thomas, Diweddar Orichwyliwr Chwarel Pantdreiniog – Cymerodd ei marwolaeth le oddeutu deg o'r gloch boreu ddydd Mercher diweddaf, yn 48 mlwydd oed. Yr oedd yn wraig rinweddol a da, ac yn fam ragorol a hynod ofalus. Y mae wedi gadael tri o blant i alaru ar ei hôl. Mae cydymdeimlad mwyaf a Mr Thomas, ac hefyd â'r plant, yn eu profedigaeth chwerw. Boreu ddydd Sadwrn cafodd gynhebrwng parchus iawn – un anghyoedd, yn ôl ei dymuniad. Hebryngwyd ei gweddillion i gladdfa yr Ymneillduwyr a gwasanaethwyd gan y Parch T. Griffiths, Bethania.*

Rhai misoedd yn ddiweddarach cawn adroddiad yn y Gwalia eto yn sôn fod Richard Hayden Thomas a'i fab R. S. Thomas, Caerberllan, wedi cychwyn am Lundain, gyda'r bwriad o ymfudo i Dde Affrica.

*Wedi mynd i'r Transvaal – Boreu ddydd Mawrth yr 22ain cyfisol bu i Mr Richard Hayden Thopmas, a'i fab R.S.Thomas, Caerberllan, adael Bethesda am Lundain ar eu taith i Ddeheudir Affrica, lle y bwriadant ymsefydlu. Chwarelwr ydyw galwedigaeth Mr Thomas, a bu am amser yn oruchwiliwr ar Chwarel Pantdreiniog. Mae yn ddyn bywiog a llawn ynni, ac yn alluog mewn llawer ystyr heblaw fel chwarelwr, a diamau ei fod yr iawn ddyn i ymfudo i'r wlad sydd a rhagolygon mor ddisglair o'i blaen. Yr oedd Mr Thomas hefyd yn un o flaenoriaid Capel Bethesda (A.)* (Codwyd ef yn Ddiacon yn 1894 ac ymddangosodd ei enw ar adroddiad yr eglwys hyd at 1903) *a diau y teimlir colled ar ei ôl yn y cylch hwnnw. Dyn ieuanc oddeutu 21ain mlwydd oed yw ei fab (R.S. Thomas,) saer coed ydyw wrth ei alwedigaeth, ac â olygwedd cryf ac iach. Yr oeddynt yn hwylio o Llundain am Durban ddydd Iau, a bwriadont ymsefydlu yn Johannesburg. Mae wedi gadael dau o'i blant ar ôl, sef merch (Miss Thomas) a bachgen oddeutu 13eg oed,* (W. D. Thomas) *y rhai fydd yn gadael Bethesda yn mhen ychydig fisoedd, wedi iddo ymsefydlu, i ymuno ag ef. Gellir dweud fod dymuniadau goreu llu o gyfeillion yn mynd i'w canlyn.*

Mae'n eithaf tebygol fod Richard Hayden Thomas wedi penderfynu ymfudo ar ôl i'w briod farw, a bod streic Chwarel y Penrhyn 1900 – 1903 yn ei hanterth.

Yn adroddiad 1900 – 1904 Eglwys Gynulleidfaol Bethesda, mae'r swyddogion yn eu cyfarchiad yn nodi fod yr eglwys wedi colli 34 o aelodau trwy farwolaeth, yn ystod y 4 blynedd diwethaf, y*n ei plith 3 o Flaenoriaid, ac un trwy ymadael am Dde Affrica, sef R. H. Thomas, gŵr rhagorol, gwahanol iawn yn eu cyneddfau a chylch eu gwasanaeth, ond y pedwar lawn mor ffyddlawn a'u gilydd yn eu gwahanol gylchoedd.*

Trwy gymorth Arfon Evans, Erw Las, cefais y wybodaeth canlynol. Roedd Richard Hayden Thomas a'i fab R. S. wedi hwylio am Dde Affrica ar y 26ain o Orffennaf 1902, ar fwrdd llong o'r enw Doune Castle, o Southampton am Durban (Port Natal), a dilynodd ei ferch a William D. Hayden Thomas hwy ar y 14eg o Dachwedd 1903, ar fwrdd y llong Saxon. Roedd William yn 15eg oed yn ôl y manylion rhestr teithwyr y flwyddyn honno. Felly ymfudodd yr holl deulu o ardal Bethesda i chwilio am well bywyd yn De Affrica, ac yn ôl pob golwg fe gwrddodd William D. Hayden Thomas a'i wraig Sylvia yno a ganwyd mab iddynt o'r enw Pieter Jooste Hayden-Thomas, yn 1917, a ddaeth yn ôl i'r wlad yma i ymladd yn yr ail Ryfel Byd, gydag Awyrlu De Affrica. Bu farw yn Chippenham, Wiltshire, a dyna paham mae ei enw wedi ei dorri ar garreg fedd ei nain yng Nghoetmor.

## Gwis Atebion

**Atebion i Gwis Llais Ogwan Mis Medi**

| | | |
|---|---|---|
| A : Arafon | B : Bont TŷGwyn | C : Capel Cwta |
| D : Dolgoch | E : Ernest Roberts | F : Foster |
| FF : Ffrancon (fferm Maes Caradog) | | G : Grisiau Cochion |
| H : Hen Barc | I : (Syr) Ifor Williams | J : Jeriwsalem |
| L : Lon Bach Odro | LL : Llandygai | M : Maffia Mr Huws |
| N: Newydd (Lŷn) | O : Ogwen | P : Parc Moch |
| R : Rachub | RH : Rhiwlas | S : Sychnant |
| T : Tai Teilwriaid | W : Wnion | Y : Y Llwynog (R W Parry) |